Cofrestrfa Tir
e_drawsgludo

Dogfen drafodaeth a gynhyrchwyd gan y Gofrestrfa Tir. Mae'r wybodaeth ar gael hefyd ar y wefan **www.cofrestrfatir.gov.uk**

Dadansoddiad o ymatebion i

Diffinio'r gwasanaeth – Trosglwyddo Arian Electronig (EFT)

Tachwedd 2005

Yn gweithio gyda chi

Rhan 1

Crynodeb gweithredol

Ar 4 Ebrill 2005, cyhoeddodd y Gofrestrfa Tir ddogfen drafod o'r enw *Diffinio'r gwasanaeth – Trosglwyddo Arian Electronig (EFT)*. Roedd y ddogfen hon (y cyfeirir ati fel 'y ddogfen drafod' o hyn ymlaen) yn nodi argymhelliad y Gofrestrfa Tir i gael gwasanaeth trosglwyddo arian electronig yn sail i e-drawsgludo. Fe'i dosbarthwyd, gyda holiadur, i amrywiaeth eang o fudd-ddeiliaid.

Cynulleidfa'r ymgynghoriad a chyfraddau ymateb

Prif gynulleidfa'r ddogfen drafod oedd ymarferyddion trawsgludo, rhoddwyr benthyg a banciau. Ei phwrpas oedd, yn gyntaf, ysgogi trafodaeth ymysg budd-ddeiliaid ynglŷn ag EFT; ac yn ail, gofyn am eu barn ar gynnig y Gofrestrfa Tir. Roedd yn rhaid ymateb erbyn 16 Mai[1], mewn un o'r ffyrdd canlynol:

- trwy ddadlwytho copi o'r ddogfen drafod ac ateb yr holiadur cysylltiedig ar y rhyngrwyd ar wefan ymgynghori'r Gofrestrfa Tir www.e-consultations.e-conveyancing.gov.uk
- trwy gwblhau'r holiadur ar-lein
- trwy gael copi caled drwy'r post, cwblhau'r holiadur a'i ddychwelyd yn yr un modd.

Mae Rhan 2 yr adroddiad hwn yn dadansoddi'r ymatebion ac yn nodi'r casgliadau y mae'r Gofrestrfa Tir wedi llwyddo i'w gwneud ar sail yr ymarfer.

Rhannwyd yr holiadur yn bedair adran. Roedd Adran A yn cynnwys cwestiynau cyffredinol; roedd Adran B yn cynnwys cwestiynau i fanciau fel darpar fanciau asiant; roedd Adran C yn cynnwys cwestiynau i ymarferyddion; ac roedd Adran D yn cynnwys cwestiynau i roddwyr benthyg. Rhannwyd yr holiadur fel bod ymatebwyr yn gallu gweld pa gwestiynau oedd yn berthnasol iddynt ac ateb y cwestiynau hynny'n unig. Fodd bynnag, roedd croeso iddynt ateb y cwestiynau eraill os oeddynt am wneud hynny.

Dosbarthwyd 3,000 copi o'r ddogfen drafod a'r holiadur a derbyniwyd 181 o holiaduron wedi'u cwblhau, sef cyfradd ymateb o 6.03 y cant. Yn ogystal, cafwyd wyth ymateb ar fformat rhydd drwy lythyr neu e-bost, gan roi cyfanswm o 189 ymateb. Cafwyd ymatebion gan drawsgludwyr gan mwyaf, gyda dim ond dau gan fanciau a dau gan roddwyr benthyg eraill. Er bod y diffyg ymatebion gan fanciau a rhoddwyr benthyg yn siomedig, nid yw'n cyfaddawdu canlyniad yr ymgynghoriad am y rhesymau canlynol.

[1] Gohiriwyd y dyddiad cau tan 23 Mai fel nad oedd pobl a oedd yn ymateb ar-lein dan anfantais o gymharu â phobl a oedd wedi anfon eu hymatebion drwy'r post.

- Mae'r Gofrestrfa Tir wedi cysylltu gyda nifer o fanciau wrth ddatblygu'r cynnig EFT felly rydym yn gwybod eu barn i raddau helaeth.
- Mae rhoddwyr benthyg wedi cymryd rhan mewn grwpiau ffocws lle roeddynt yn mynegi barn gadarnhaol ar y cyfan ar EFT.

Er y byddai eu barn ar ein cynigion manwl wedi bod yn ddefnyddiol, nid yw absenoldeb eu barn, felly, yn gwneud yr ymarfer yn ddi-bwrpas nac yn codi amheuaeth ynglŷn â dilysrwydd unrhyw gasgliadau a wneir ar sail yr ymarfer.

Cyhoeddusrwydd yr ymgynghoriad a mynediad iddo

Mae EFT eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad ffurfiol yn 2002 a bwriad yr ymarfer hwn oedd canfod barn budd-ddeiliaid ar gynigion manwl y Gofrestrfa Tir.

Lansiwyd yr ymarfer gyda gwahoddiad cychwynnol i gofrestru ar wefan e-ymgynghori'r Gofrestrfa Tir a chafodd ei hysbysebu mewn datganiadau i'r wasg gan Gymdeithas y Cyfreithwyr ac APACS. Yn ogystal, aeth Cymdeithas y Cyfreithwyr ati i anfon negeseuon e-bost at aelodau'i Hadran Eiddo ac anfonodd y Gofrestrfa Tir negeseuon atgoffa at ddarpar ymatebwyr ar 28 Ebrill a 11 Mai.

Adborth yr ymgynghoriad

Fel y sonnir uchod, roedd wyth ymatebwr o'r farn nad oedd yr holiadur yn addas i'w hanghenion, gan ddewis ymateb ar fformat rhydd. Dywedodd un ymatebwr ei bod yn ymddangos bod y system wedi colli ei ymateb pan oedd ar fin gorffen yr holiadur.

Roedd holl adborth y defnyddwyr a gwblhaodd yr holiadur byr am y cyfleuster ar-lein yn ffafriol.

Ymatebion i gwestiynau'r ddogfen drafod

Fel y gwelir yn Rhan 2 y ddogfen hon, er bod mwyafrif llethol yr ymatebwyr o'r farn fod y cynnig yn ddichonadwy, mynegodd llawer ohonynt amheuon wrth ymateb i'r cwestiynau priodol. Gellir grwpio'r amheuon hynny yn ôl thema yn fras, fel a ganlyn.

Wyau i gyd mewn un fasged

Roedd pryderon y gallai un Banc Asiant lesteirio cystadleuaeth ac na fyddai'n gwasgaru risg. Gallai'r gwasanaeth fod yn agored i drosedd (twyll, gwyngalchu arian) a byddai diffyg cyfleusterau wrth gefn pe bai'r system yn methu. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn na fyddai un banc yn gallu ymdopi gyda nifer y trafodion ar yr adegau prysuraf ac y byddai'r diffyg cystadleuaeth yn golygu na fyddai cymhelliant i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Roedd rhai hefyd o'r farn y byddai dyfarnu contract i un banc yn cael ei herio dan gyfraith cystadlu.

Hyblygrwydd
Yn ôl rhai ymatebwyr, byddai'r gwasanaeth EFT yn rhy anhyblyg ac ni fyddai'n ddigon ymatebol i newidiadau mewn amgylchiadau, megis meddiant nad yw'n wag, dirymiadau ar y funud olaf neu ddatganiadau adbrynu hwyr. Roedd hefyd amheuon y byddai'n bodloni gofynion trafodion cymhleth neu'r newidiadau na ellir eu rhagweld a achosir gan bobl.

Costau
Bydd cost yn broblem os yw defnyddwyr y gwasanaeth o'r farn nad yw'n cynnig gwerth da am arian neu os yw'r costau buddsoddi yn uwch na'r hyn sy'n dderbyniol i'r farchnad. Mae llawer yn dibynnu ar lefel y taliadau a godir gan y Gofrestrfa Tir a/neu'r Banc Asiant a'r berthynas rhwng taliadau o'r fath ac ansawdd y gwasanaethau a gynigir. Roedd llawer o drawsgludwyr yn poeni y byddent yn wynebu costau uwch tra'n colli llog ar arian cyfrifon cleientiaid.

Cadwyni cymysg
Roedd ymatebwyr yn anghytuno ynglŷn â dichonolrwydd y cynigion ar gyfer ymdrin â chadwyni cymysg a nodir yn y ddogfen drafod. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn mai gorfodaeth oedd yr ateb ac ni fyddai unrhyw fanc yn barod i fod yn Fanc Asiantaeth oni bai bod gorfodaeth yn cael ei gyflwyno yn gynnar yn y broses.

Anelu'n rhy uchel
Dywedodd nifer o ymatebwyr fod y gwasanaeth arfaethedig yn uchelgeisiol iawn (ad-drefnu'r system ariannol ar gyfer trawsgludo yng Nghymru a Lloegr) ac roeddynt yn awgrymu y dylai'r Gofrestrfa Tir fod yn ofalus rhag peidio â thorri twll na fedr ei gau.

Cydymffurfiaeth
Byddai'n rhaid i'r system gydymffurfio â gofynion amrywiaeth o godau rheoleiddio (sydd weithiau'n groes i'w gilydd), er enghraifft, rheolau cyfrifon cyfreithwyr a thrawsgludwyr trwyddedig, a chodau a phrotocolau bancio.

Y glo mân
Roedd rhai ymatebwyr yn barnu nad oedd y cynigion yn ddigon manwl, yn enwedig mewn perthynas â thrafodion anodd neu anarferol. Roeddynt o'r farn fod y cynigion yn tybio'n naïf (a) trafodion safonol, a (b) na fyddai unrhyw beth yn mynd o'i le ac na fyddai unrhyw beth anarferol yn digwydd.

Pwy sy'n gyfrifol pan fo pethau'n mynd o le?
Roedd cyfrifoldeb ac atebolrwydd yn peri pryder i lawer o ymatebwyr a oedd o'r farn fod y ffiniau rhwng y Gwasanaeth Canolog, ymarferyddion a'r Banc Asiant yn rhy amwys.

Y camau nesaf

Er ei bod yn galonogol bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn credu bod ein cynigion yn ddichonadwy, ffôl fyddai anwybyddu'r amheuon a

fynegwyd yn yr ymatebion i'r ddogfen drafod. Felly, rydym wedi penderfynu:

- na fydd y cam cyntaf o e-drawsgludo, a fydd yn cael ei roi ar brawf yn 2007, yn cynnwys EFT ond bydd yn canolbwyntio ar reoli cadwyni ac ar baratoi, cyfnewid a darparu gweithredoedd a dogfennau electronig
- y byddwn, serch hynny, yn parhau i weithio ar ein cynigion EFT gyda chymorth yr ymgynghorwyr bancio rydym wedi eu penodi i gynghori ar systemau a phrotocolau bancio
- y byddwn yn cysylltu ymhellach â grwpiau budd-ddeiliaid a chyrff cynrychiolwyr i wella ein cynigion ac, yn arbennig, i fynd i'r afael â'r materion a fynegwyd gan ymatebwyr.

Rhan 2

Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn cofnodi ac yn dadansoddi ymatebion budd-ddeiliaid i gwestiynau'r holiadur EFT, a gyhoeddwyd gyda'r ddogfen drafod. Cafwyd peth beirniadu, a chafodd y sylwadau hyn eu cofnodi ond ni chawsant eu gwrthbrofi, a phwrpas yr ymarfer hwn yw canfod barn ein budd-ddeiliaid ar ein cynigion yn hytrach na gwrthbrofi unrhyw feirniadaeth.

Cwestiynau cyffredinol

Cwestiwn 1

A yw'r dull Banc Asiant yn ddichonadwy ar gyfer cadwyni preswyl?

Cyfanswm yr ymatebion – 178. Cafwyd sylwadau gan 113.

Roedd 89 y cant yn credu bod y dull yn ddichonadwy, ond roedd eu cydsyniad yn amodol yn aml, a'r amodau hynny'n rhai helaeth ar brydiau. Mae'r paragraffau canlynol yn crynhoi'r rhesymau mwyaf cyffredin dros y pryder. Fodd bynnag, rhaid nodi dwy ffaith arall. Yn gyntaf, roedd llawer o ymatebwyr yn cymeradwyo'r cynnig yn llwyr. Yn ail, nid oedd rhai o'r rheini a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig wedi rhoi rhesymau dros wneud hynny.

Dyma'r prif faterion:

Rheolaeth a hyblygrwydd
Dywedodd un ymatebwr fod gan gyfreithwyr sydd eisoes â'u modem Bankline eu hunain fwy o reolaeth dros y broses na fyddai ganddynt gyda'r gwasanaeth EFT arfaethedig. Mynegodd llawer o ymatebwyr eraill bryder ynglŷn â cholli rheolaeth dros y broses, sef yr hyn roeddynt yn honni y byddai'n digwydd yn sgil EFT.

Dan y system bresennol, mae modd caniatáu cyfnewid a chwblhau 'ar yr un diwrnod' ac roedd rhai ymatebwyr o'r farn na fyddai'r hyblygrwydd hwn ar gael dan y gwasanaeth newydd. Dywedodd un ymatebwr mai dim ond cyfreithwyr oedd yn ystyried y system bresennol yn aneffeithiol, a bod banciau a rhoddwyr benthyg yn fodlon â hi[2]. Dywedodd eraill y byddai'r gwasanaeth EFT yn gostus ac yn drafferthus, ac y byddai'n llesteirio mesurau arloesol gan ymarferyddion i oresgyn problemau, er enghraifft, dal gafael ar arian

[2] Fodd bynnag, mae adborth gan grwpiau ffocws y Gofrestrfa Tir yn gwrthddweud hyn drwy awgrymu bod y rhan fwyaf o roddwyr benthyg yn cefnogi'r cynigion EFT yn frwd

tan fod amod arbennig wedi'i fodloni, darparu ymgymeriadau munud olaf.

Gallai materion atodol sy'n gallu arwain at ddirymiadau hwyr, megis cofrestru cartrefi priodasol neu fethiant i roi meddiant gwag, achosi problemau oherwydd ei bod yn ymddangos nad yw'r cynnig EFT yn darparu ar eu cyfer. Nid yw'n ymddangos yn briodol ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhan o gadwyn 'chwaith.

Fodd bynnag, dywedodd un ymatebwr nad oedd y system bresennol yn rhoi unrhyw sicrwydd y byddai banciau yn trosglwyddo arian ar y diwrnod cwblhau erbyn yr amser a nodir yn y contract ac felly byddai'r gwasanaeth EFT arfaethedig yn ddewis gwell yn hyn o beth.

Lefelau gwasanaeth yn y Banc Asiant
Roedd nifer o ymatebwyr hefyd yn amau a allai un darparwr ymdopi â nifer y trafodion, yn enwedig ar yr adegau prysuraf, fel y dydd Gwener cyn penwythnos gŵyl y banc. Nodwyd y byddai'r lefelau gwasanaeth sydd eu hangen yn llawer uwch na'r rhai y mae unrhyw fanc yn eu cynnig i'w gwsmeriaid ar hyn o bryd. Mae posibilrwydd y byddai arian yn cael ei gredydu i'r cyfrif anghywir neu'n cael ei golli yn y system.

Roedd rhai ymatebwyr yn credu y byddai angen safonau perfformiad gyda chosbau cysylltiedig er mwyn sicrhau bod y Banc Asiant yn diwallu anghenion y farchnad oherwydd nad yw'r safonau sy'n cael eu cyrraedd ar hyn o bryd yn ennyn hyder. Byddai hefyd angen mecanweithiau, mesurau rheoli a chyfleusterau wrth gefn ar y Banc Asiant rhag ofn i'r system fethu. Roedd llawer o ymatebwyr yn ystyried bod lefel y gwydnwch y byddai ei hangen (hynny yw, dim posibilrwydd o fethiant) yn amhosib, a nodwyd y canlyniadau trychinebus a allai godi pe bai'r system yn methu ar ddydd Gwener cyn gŵyl y banc.

Dywedodd llawer o ymatebwyr bod yn rhaid cael modd o ddisodli'r Banc Asiant, os byddai hynny'n angenrheidiol. Bydd angen ystyried y goblygiadau ar gyfer trawsgludwyr a phartïon eraill.

Atebolrwydd
Gofynnodd nifer o ymatebwyr pwy fyddai'n atebol pe bai arian yn mynd ar goll neu'n cael ei gredydu i'r cyfrif anghywir yn y system, neu pe bai'r system yn methu gan adael prynwyr tai ar eu colled o bosib (er enghraifft, costau gwesty, taliadau symud dodrefn).

Trafodion cymhleth
Roedd un ymatebwr yn cydnabod bod cael un Banc Asiant yn ddymunol ond roedd yn amau'r angen am y Gwasanaeth Canolog, gan ei ddisgrifio fel rhywbeth cwbl afraid a haen fiwrocrataidd syrffedus. Rhybuddiodd hefyd nad yw pob trafodiad yn ddigon syml fel bod modd cwblhau a chofrestru ar yr un pryd – er enghraifft, efallai y bydd angen cofnod anarferol yn erbyn teitl, a bydd angen

amser i'w ystyried. Dywedodd nifer o ymatebwyr eraill y gallai oedi wrth gwblhau arwain at ail-gyfrifo dosraniadau, gan awgrymu er y byddai'r dull Banc Asiant yn gweithio lle nad oedd problemau'n codi, nad oedd yn eglur sut, neu hyd yn oed os, byddai'n gallu ymdopi â'r anawsterau, oediadau a newidiadau munud olaf gwahanol di-ben-draw a all godi mewn unrhyw drafodiad arbennig.

Rhagariannu
Mae amheuon ynglŷn â pha mor ymarferol yw rhagariannu. Bydd angen i'r Banc Asiant weld bod yr arian wedi ei dalu 24 awr cyn cwblhau er mwyn cael amser i hysbysu parti beius am unrhyw broblem a hefyd hysbysu partïon eraill y gadwyn os nad yw'r broblem yn cael ei datrys ar unwaith. Fodd bynnag, gallai arian gymryd trwy'r dydd i gyrraedd y system EFT os yw'n cael ei anfon drwy CHAPS. Felly, a ddylid rhagosod yr arian ddeuddydd cyn cwblhau?

Cadwyni cymysg
Yn ôl llawer o ymatebwyr, byddai'r gwasanaeth arfaethedig yn ei chael hi'n anodd darparu ar gyfer pobl nad ydynt yn defnyddio'r system ac ni fyddai'n gweithio oni bai bod pawb yn ei defnyddio. Roedd dau ymatebwr o'r farn fod y system yn gymhleth ac ychydig iawn o bobl fyddai am ei defnyddio. Dywedodd un ymatebwr y dylai fod yn orfodol defnyddio EFT ac awgrymodd un arall na fyddai unrhyw fanc yn ysgwyddo rôl y Banc Asiant oni bai bod gorfodaeth yn cael ei gyflwyno o fewn cyfnod byr iawn.

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
Mae amheuon ynglŷn ag a fyddai Trethi Stamp Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (Cyllid y Wlad gynt) yn gallu cymryd rhan yn y gwasanaeth EFT, oherwydd bod newidiadau i'w gweithdrefnau wedi arwain at broblemau sydd heb eu datrys gyda thaliadau Treth Tir Toll Stamp.

Rhoddwyr Benthyg
Yn aml, nid yw rhoddwyr benthyg yn rhyddhau datganiadau adbrynu tan y diwrnod cwblhau ac mae'r cyfryw ddatganiadau yn aml yn anghywir. Roedd dau ymatebwr yn amau a fyddai rhoddwyr benthyg yn barod i ryddhau arian cyn cwblhau. Dywedodd un ymatebwr y byddai'n rhaid i bawb dan sylw – trawsgludwyr, rhoddwyr benthyg a'r Banc Asiant – fod yn llawer mwy disgybledig er mwyn i'r system weithio.

Cost i gleientiaid
Rhaid i gleientiaid fod yn barod i dalu llog ychwanegol fel bod modd rhagosod arian. Nododd llawer o ymatebwyr y bydd trawsgludwyr yn colli'r llog maent yn ei ennill ar hyn o bryd ar eu cyfrifon cleientiaid. Byddai'r golled hon yn lleihau eu helw yn sylweddol (efallai'n drychinebus), neu byddai'n cael ei hunioni gan ffïoedd uwch i'w cleientiaid. Roeddynt yn awgrymu y gallai cost fod yn broblem, yn dibynnu ar lefel y taliadau y byddai'r Banc Asiant yn eu codi ar gwsmeriaid a'r berthynas rhwng y cyfryw daliadau ac ansawdd ei wasanaeth.

Cydymffurfiaeth
Yn ôl tri ymatebwr, naill ai mae'n rhaid i'r gwasanaeth EFT gydymffurfio â rheolau cyfrifon y cyfreithwyr, neu, os oes angen, rhaid diwygio'r rheolau hynny i gyd-fynd ag anghenion y gwasanaeth. Rhaid hefyd ystyried diogelu arian, atebolrwydd am golled, yr amgylchiadau lle gellir adalw arian a digolledu. Dywedodd dau ymatebwr hefyd nad oedd digon o fanylion am y berthynas rhwng EFT a chyfrifon cleientiaid cyfreithwyr: pe byddai'r gwasanaeth, i bob pwrpas, yn dyblu llwyth gwaith swyddfa gyllid pob cwmni oherwydd yr angen i gadw cyfriflyfrau dyblyg, ychydig iawn o gwmnïau fyddai'n ei ddefnyddio. Gofynnodd un ymatebwr a fyddai gan y Banc Asiant ddyletswydd gofal i'r trawsgludwr neu'r Gofrestrfa Tir.

Diogelwch a risg
Mae diogelwch, yn enwedig o ran mynediad i gyfrifon, yn fater pwysig, fel y mae eglurder at ddibenion archwilio. Awgrymodd un ymatebwr hefyd y gallai e-drawsgludo hwyluso twyll, ond ni aeth i fanylder ynglŷn â sut byddai'n gwneud hyn.

Roedd llawer o ymatebwyr yn credu y dylid rhoi'r gorau i'r cynnig oherwydd bod y risgiau cysylltiedig yn rhy fawr a'r canlyniadau posib yn rhy ddifrifol i fod yn gynaliadwy. Yn eu barn nhw, mae'r system bresennol, er gwaethaf ei gwendidau, yn gweithio'n ddigon da. Roedd un ohonynt yn credu y byddai'n well defnyddio'r amser, yr arian a'r ymdrech sy'n cael eu buddsoddi mewn e-drawsgludo ar ddarparu rhagor o wybodaeth ar y gofrestr, yn enwedig mewn perthynas â chyfamodau cyfyngu, a sicrhau bod prydlesi copi swyddogol ar gael yn gyffredinol. Hefyd, yn ei farn e, er bod y cyhoedd am gyfnewid contractau'n gyflym, nid oes tystiolaeth fod ganddynt ddiddordeb mewn pa mor gyflym y gellir cofrestru teitl.

Rhybuddiodd ymatebwyr eraill fod y gwasanaeth EFT yn hynod uchelgeisiol ac awgrymwyd y byddai'r Gofrestrfa Tir a'r Banc Asiant yn ysgwyddo cyfrifoldeb enfawr wrth fynd i'r afael â'r system ariannol gyfan ar gyfer trawsgludo yng Nghymru a Lloegr.

Cyfathrebu
Gofynnodd un ymatebwr sut roedd y Gofrestrfa Tir yn bwriadu cyfathrebu cwblhau. Gofynnodd un arall a fyddai cadarnhad bod arian wedi ei dderbyn a'i dalu yn cael ei anfon ar e-bost.

Defnyddwyr achlysurol
Dywedodd un ymatebwr mai rhan fach yn unig o fusnes ei gwmni oedd trawsgludo a bod gwerthiannau mewn cadwyn hyd yn oed yn llai. A ddylai pobl debyg gael eu hannog i ddefnyddio EFT, neu a fyddai hynny'n gymhlethdod diangen?

Yr elfen ddynol
Roedd tri ymatebwr yn credu mai methiannau ar ran trawsgludwyr, eu cleientiaid neu roddwyr benthyg (er enghraifft, arafwch,

absenoldeb o'r gwaith oherwydd salwch neu ddamweiniau, diffyg medr, bod yn ddi-egwyddor) yn hytrach na phroblemau yn y system oedd wrth wraidd problemau'r gwasanaeth cyfredol ac na fyddai'r EFT yn newid hyn.

Cwestiwn 2

A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella'r dull Banc Asiant?

Cyfanswm yr ymatebion – 176. Cafwyd sylwadau gan 85.

Cafwyd awgrymiadau ar gyfer gwella gan 35 y cant o ymatebwyr. Roedd 65 y cant yn fodlon â'r cynnig fel yr oedd. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn anghytuno mewn egwyddor gyda'r cynnig EFT. Yn ôl y disgwyl, mae eu hawgrymiadau yn debycach i gysyniadau amgen yn hytrach na syniadau ar gyfer gwella. Ni wahaniaethwyd rhwng y ddau gategori hyn yn y paragraffau canlynol. Bydd barn yr ymatebwyr yn amlwg i'r darllenwr.

Systemau trosglwyddo arian gwell
Awgrymodd rhai ymatebwyr welliannau i'r system drosglwyddo arian bresennol a allai, o'u mabwysiadu, ddileu'r angen am Fanc Asiant. Roedd y rhain yn cynnwys trosglwyddiadau arian ar-lein amser real gan gyfreithwyr, a gofyniad bod cyfnewid yn digwydd o leiaf dri diwrnod cyn cwblhau i sicrhau bod yr holl arian a chwiliadau cyn-cwblhau yn eu lle.

Dywedodd llawer o ymatebwyr fod angen i drosglwyddiadau arian fod yn gyflymach, waeth a yw EFT yn cael ei fabwysiadu ai peidio. Roedd angen prosesu taliadau CHAPS yn gyflymach (hyd yn oed dan y cynnig EFT, gallai cwblhau gael ei ohirio tan fod taliad CHAPS yn cyrraedd y Banc Asiant) a dylid rhagosod arian yn gynnar y diwrnod cyn cwblhau fel bod modd gwneud gwiriadau. Dywedodd un ymatebwr y dylai bod modd i drawsgludwyr grynhoi'r holl arian angenrheidiol y diwrnod cyn cwblhau ac yna talu'r swm perthnasol i'r Banc Asiant.

Cadwyni sydd wedi eu gohirio neu wedi mynd i'r gwellt
Mae angen dull o ddelio â chadwyni sydd wedi eu gohirio neu wedi mynd i'r gwellt (yn anffodus, ni awgrymwyd dull o'r fath).

Gorfodaeth
Dywedodd llawer o ymatebwyr y dylid gwneud defnydd o EFT yn orfodol cyn gynted â phosib.

Gwneud gwaith heb eisiau
Roedd rhai ymatebwyr o'r farn fod y system bresennol nad yw'n EFT yn ddigonol ac na ddylid ymyrryd â hi. Roedd un am ychwanegu'r amod y dylai cwmnïau cyfreithiol ddefnyddio systemau bancio ar-

lein. Yn ôl un arall, os oedd angen newid y system bresennol o gwbl, dylid ei symleiddio yn hytrach na'i chymhlethu. Dywedodd traean y gallai'r Banc Asiant fod yn ddichonadwy, ond roeddynt yn amau'r angen amdano. Dylid gwella'r system bresennol nad yw'n EFT i leihau'r amser sydd ei angen i drosglwyddo arian a galluogi trawsgludwr y prynwr i dderbyn arian y diwrnod cyn cwblhau.

Angen mwy o waith
Dywedodd llawer o ymatebwyr bod angen mwy o waith a mwy o fanylion i sicrhau bod y dull Banc Asiant yn gallu ymdrin ag amrywiaeth eang o drafodion trafferthus. Gall oedi ddigwydd am nifer o resymau, ac nid yw'r cynnig EFT yn ystyried pob un ohonynt: dim ond wrth bwyso a mesur pob sefyllfa bosib a dod o hyd i ateb y gellir gwerthuso gwydnwch y system yn briodol.

Cyfathrebu
Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau bod angen dull o gyfathrebu di-oed rhwng trawsgludwyr a'r Banc Asiant ac na ddylai cwblhau ddigwydd tan fod pob parti mewn trafodiad wedi rhoi awdurdod clir i gwblhau.

Dywedodd un ymatebwr y dylai cadarnhad y Banc Asiant o daliadau sy'n cael eu gwneud allan sicrhau bod y gadwyn matrics yn cael ei diweddaru ar unwaith er mwyn i'r holl bartïon ei gweld a rhyddhau'r allweddi. Ychwanegodd y dylai dirymiad fod yn gyfyngedig iawn ac yn amodol ar amser (mynegwyd hyn gan lawer o ymatebwyr, ac awgrymodd un mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylai bod modd dirymu ar y diwrnod cwblhau) a rhaid bod darpariaethau brys ar waith rhag ofn i'r system rewi.

Cost buddsoddiad
Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y byddai cost y buddsoddiad yn y dechnoleg sydd ei hangen i wneud i'r gwasanaeth EFT weithio yn ormod o faich ar y farchnad, yn enwedig yn achos busnesau bach ac ymarferyddion unigol.

Fframwaith rheoleiddio
Awgrymodd un ymatebwr arall efallai y byddai'n rhaid newid yr *Amodau Gwerthu Safonol* ar gyfer eiddo preswyl i ddarparu ar gyfer achosion lle'r oedd yr arian wedi ei drosglwyddo ond lle'r oedd problem wedi codi gan rwystro'r prynwr/gwerthwr rhag cwblhau. Efallai y bydd angen ombwdsman sy'n cael ei ariannu'n ganolog i ddelio â materion a fyddai fel arall yn arwain at achos llys drud. Byddai hyn yn gofyn am ymrwymiad gan y Llywodraeth.

Cwestiwn 3

A oes gennych farn ar ddefnyddio un Banc Asiant?

Cyfanswm yr ymatebion – 177. Cafwyd sylwadau gan 132.

Atebodd 74 y cant o ymatebwyr ‘oes’ i’r cwestiwn hwn. Roedd rhai o’r ymatebion cystal ag awgrymiadau ar gyfer gwella. Roedd eraill (y mwyafrif) yn mynegi pryder ynglŷn â rhai o oblygiadau’r gwasanaeth EFT arfaethedig ac roedd y gweddill y cadarnhau eu bod yn cymeradwyo’r cysyniad o un Banc Asiant gydag amodau cymedrol (os o gwbl).

Roedd dau brif faes yn peri pryder i’r rhan fwyaf o ymatebwyr: cystadleuaeth (neu’r diffyg ohoni) a risg.

Cystadleuaeth
Roedd llawer o ymatebwyr o’r farn y gallai’r Banc Asiant gamddefnyddio ei fonopoli ac roeddynt yn ofni y byddai EFT yn creu ‘archfanc’, a fyddai’n gallu’r rheoli’r farchnad heb fod yn atebol i unrhyw un i bob pwrpas. Dywedodd un ymatebwr fod gormod o bŵer wedi ei roi i’r Banc Asiant a’r Gofrestrfa Tir a’i fod yn drewi o dotalitariaeth. Roedd llawer o’r farn fod absenoldeb cystadleuaeth a’r dybiaeth y byddai’n anodd trosglwyddo’r gwasanaeth EFT i fanc arall yn golygu na fyddai gan y Banc Asiant gymhelliant i bennu a chynnal safonau uchel. Nododd rhai ymatebwyr fod safonau yn y diwydiant bancio yn amrywio o’r derbyniol i’r ofnadwy, felly roedd pryder ynglŷn â phwy fyddai’r Banc Asiant, gan fod gan rai banciau enw gwell nag eraill.

Awgrymodd un ymatebwr y dylid penodi Banc Lloegr fel y Banc Asiant – “dim cystadleuaeth a bydd y Llywodraeth wrth ei bodd”!

Risg
Roedd llawer o ymatebwyr o’r farn ei bod yn hanfodol cael mwy nag un banc er mwyn diogelu rhag methiannau system/bancio a materion gallu – a allai’r Banc Asiant ymdopi â’r llwyth gwaith, yn enwedig ar yr adegau prysuraf? Roeddynt yn poeni y gallai un Banc Asiant achosi i risg gronni mewn un maes yn hytrach na gwaredu’r risg, fel y gwna’r system bresennol. Roedd hyn yn gysylltiedig â phryderon y byddai’r systemau’n methu ac na fyddai’r systemau wrth gefn yn ddigonol, a allai arwain at sefyllfa ddifrifol, er enghraifft, ar ddydd Gwener cyn penwythnos gŵyl y banc. Roeddynt hefyd yn pwysleisio bod dibyniaeth lwyr ar un darparwr gwasanaeth yn arwain at risg uwch o derfysgaeth a mathau arbennig eraill o drosedd (er enghraifft, twyll, gwyngalchu arian). Yn ôl un ymatebwr, efallai na fyddai modd cael yswiriant indemniad pe bai dim ond un Banc Asiant.

Mwy nag un Banc Asiant
Roedd llawer o ymatebwyr o’r farn y byddai’n well cael mwy nag un Banc Asiant er mwyn sicrhau hyblygrwydd, cystadleuaeth o ran cost a rhoi modd o gymharu darpariaeth gwasanaeth mewn perthynas â safonau gwasanaeth y cytunwyd arnynt. Roeddynt o’r farn y byddai cystadleuaeth yn gwella gwasanaeth.

Awgrymodd dau ymatebwr mai consortiwm neu ddeuopoli gyda banc arweiniol, neu brif asiant, fyddai’r ateb gorau.

Yn ôl ymatebwr arall, tra bod yn rhaid i'r Banc Asiant ymddangos fel un banc i ddefnyddwyr, byddai modd i bob banc gael gwasanaeth EFT 'atodol', gan ddibynnu ar strwythur cyfrifon cyfredol ac wrth gefn, sydd ar waith mewn llawer o fanciau, gyda'r gwasanaethau i gyd yn cydweithio'n ddi-dor fel un cyfrif cleient. Byddai cyfrifon EFT pob cwmni, o'u cymryd gyda'i gilydd, yn creu 'LREFT'.

Dau awgrym arloesol oedd y dylai'r pump mawr greu banc newydd, neu y dylai'r Gofrestrfa Tir greu banc mewnol ei hun. Awgrymwyd hefyd y dylai cyfreithwyr fod â chyfrifon cleientiaid a chyfrifon swyddfa yn y banc newydd, a fyddai'n derbyn cyfarwyddiadau'n uniongyrchol gan drawsgludwyr, drwy'r rhyngrwyd o bosib. Byddai trawsgludwyr yn cadw digon o arian yn y cyfrifon i dalu'r arian sydd ei angen ar gyfer cwblhadau arfaethedig. Roedd un ymatebwr o'r farn fod y papur trafod yn tan-ystyried yr addasiadau ariannol di-ri sydd eu hangen ar gwblhau a pha mor aml mae addasiadau o'r fath yn codi. Credai fod y cynnig EFT yn afrealistig ac yn amhosibl i'w weithredu. Roedd hefyd yn amau'r angen am amserau cwblhau penodol, oherwydd byddai hyn yn lleihau'r hyblygrwydd sydd ei angen mewn rhai achosion.

Un Banc Asiant
Roedd llawer o ymatebwyr yn ffafrio'r dull a amlinellwyd yn y ddogfen, rhai ohonynt yn frwd. Dywedodd un mai un Banc Asiant oedd yr unig ddull synhwyrol a bod yn rhaid ei amddiffyn i'r carn. Dywedodd un arall mai un canlyniad defnyddiol defnyddio un Banc Asiant fyddai terminoleg a phrosesau cyffredin i bawb. Dywedodd dau arall mai un Banc Asiant fyddai'n gweithio orau cyhyd â bod mesurau rheoli llym ar lefelau gwasanaeth a mesurau diogelwch cadarn. Honnwyd hefyd y byddai'n rhaid i'r Banc Asiant dderbyn unrhyw un fel cwsmer er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cymryd rhan mewn cadwyni cymysg. Roedd un ymatebwr, er o blaid y cysyniad o un banc, yn credu bod materion cydymffurfiaeth bancio y byddai'n rhaid mynd i'r afael â nhw.

Roedd ymateb cytbwys yn awgrymu, er y byddai un Banc Asiant yn peri risg, mae'n bosib y byddai mwy nag un Banc Asiant yn gweithredu gweithdrefnau gwahanol a fyddai'n anghyson â'i gilydd. Gallai diffyg cydweithredu rhwng banciau fod yn broblem hefyd. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwr o blaid un Banc Asiant.

Awgrymodd nifer o ymatebwyr fod yn rhaid i gytundebau lefel gwasanaeth sicrhau bod modd disodli'r Banc Asiant pe bai'n tangyflawni, ond roedd un ymatebwr o'r farn y byddai'n anodd gwneud hyn.

Materion eraill
Cafodd rhai materion eraill eu crybwyll gan nifer o ymatebwyr. Roeddynt yn cynnwys trawsgludwyr yn colli llog ar arian yn eu cyfrifon cleientiaid, anghysondeb posib gyda gofynion cwsmeriaid ac

amserlenni trawsgludo cyfredol, colli hyblygrwydd a chost i'r proffesiwn trawsgludo ac, yn y pen draw, eu cleientiaid. Mae'r cyntaf a'r olaf o'r rhain yn gysylltiedig iawn â'i gilydd ac yn bryder mawr i'r proffesiwn. Mae llawer o drawsgludwyr yn gwneud eu gwaith am y gost sylfaenol er mwyn goroesi mewn marchnad gynyddol gystadleuol gan ddibynnu ar y llog maent yn ei ennill ar gyfrifon cleientiaid i wneud elw.

Cwestiwn 4

A oes unrhyw faterion ynglŷn â chystadleuaeth sy'n peri pryder i chi?

Cyfanswm yr ymatebion – 175. Cafwyd sylwadau gan 95.

Roedd 41 y cant o ymatebwyr yn pryderu ynglŷn â materion cystadleuaeth.

Cyfraith cystadlu
Yn ôl un ymatebwr, pe bai un Banc Asiant yn cael ei benodi, byddai banciau eraill yn cyfeirio'r mater i'r Swyddfa Masnachu Teg. Dywedodd llawer y gallai materion cyfraith cystadlu godi pe bai defnyddio EFT yn cael ei wneud yn orfodol, neu pe bai anfantais i'r rhai nad oeddynt yn ei ddefnyddio.

Disgrifiodd un ymatebwr y gwasanaeth EFT fel cyfleuster preifat nad oedd a wnelo â'r Gofrestrfa Tir neu unrhyw gorff y Llywodraeth. Dywedodd fod y cynnig yn rhoi un banc mewn sefyllfa freintiedig unigryw i gyflawni swyddogaethau bancio preifat a bydd pob banc arall yn cael ei eithrio o'r rhain. Dywedodd fod yn hyn amlwg yn wrth-gystadleuol. Pe bai unrhyw fanc arall yn cynnig darparu'r un gwasanaethau, gan weithredu fel lleoliad canolog lle gellid cyfrifo a thalu taliadau net, dylai gael caniatâd i wneud hynny. Gallai ei atal rhag gwneud hynny, neu roi rhwystr yn ei ffordd, fod yn groes i gyfreithiau cystadleuaeth. Ym marn yr ymatebwr hwn, pe bai'r banc yn fanc Ewropeaidd (mae nifer o fanciau lwerddon mewn sefyllfa dda i wneud hyn), byddai'r cynnig yn mynd yn groes i gyfreithiau cystadlu Ewrop. Daeth yr ymatebwr i'r casgliad fod y Gofrestrfa Tir yn gywir i grybwyll y pwnc hwn, ond ni ddylai geisio rheoli'r system.

Colli'r rhyddid i ddewis
Ar wahân i gyfraith cystadlu, roedd llawer o ymatebwyr yn dannod colli'r rhyddid i ddewis pa fanc i'w ddefnyddio. Dywedodd un fod gan rai cyfreithwyr wasanaethau bancio (yr oeddynt yn talu mwy amdanynt) a oedd yn well na gwasanaethau bancio cyfreithwyr eraill, fel eu bod yn gallu darparu'r gwasanaeth y byddai eu cleientiaid yn talu amdanynt. Ni fyddai'r cyfryw gleientiaid yn fodlon â'r gwasanaeth arfaethedig. Efallai y byddai defnyddwyr swmp â gwasanaethau

israddol yn ei ddefnyddio gydag yswiriant helaeth, gyda chost yr yswiriant hwnnw yn cael ei hariannu gan faint y llwyth gwaith.

Anfantais annheg i'r Banc Asiant
Roedd ymatebwr arall yn credu y gallai'r ffaith bod yr ymgeisydd llwyddiannus ar gyfer rôl Banc Asiant yn cael cyfle i dreialu'r system EFT a'i rhoi ar waith, yn rhoi mantais enfawr iddo pan fyddai'n amser cynnal yr ail ymarfer tendro ar ôl i'r contract cychwynnol ddod i ben. Fodd bynnag, mae'n bosib y byddai unrhyw fantais o'r fath yn cael ei negyddu'n rhannol pe bai diffyg cydweithrediad ar ran cynigwyr aflwyddiannus.

Dywedodd ymatebwr arall bod unrhyw gynnig lle mae'n rhaid i bob trawsgludwr fod â chyfrif gydag un Banc Asiant yn cynrychioli risg fawr i achos busnes e-drawsgludo. Nid yn unig y gallai gael ei bennu'n wrth-gystadleuol ond, hefyd, efallai y bydd rhai cyfrifon nad yw'r Banc Asiant am eu cadw. Ar y llaw arall, efallai na fydd y trawsgludwr am fod â chyfrif gyda'r Banc Asiant dan sylw. Nododd yr ymatebwr y byddai un Banc Asiant yn gallu denu cyfrifon o fanciau eraill ar sail cost, gan y byddai trosglwyddiadau llyfr yn rhatach na thaliadau CHAPS.

Nododd llawer o ymatebwyr mai prif nod banciau, fel sefydliadau masnachol, oedd gwneud yr elw mwyaf posib a bod darparu gwasanaeth cwsmeriaid da yn dod yn ail i hyn. Y farn gyffredinol oedd y byddai rhoi'r cyfle i weithredu'r gwasanaeth EFT i un banc yn cryfhau ei safle ac yn atal banc newydd rhag cymryd ei le. Byddai hefyd yn rhoi'r banc mewn sefyllfa gref i ddenu cyfrifon cydrannau eraill o'r farchnad drawsgludo.

Roedd hyd yn oed yr ymatebwyr a oedd yn ffafrio un Banc Asiant yn credu na ddylid diystyru'r posibilrwydd o benodi mwy nag un Banc Asiant yn y dyfodol.

Cartelau
Dywedodd un ymatebwr nad oedd digon o ddarparwyr y gwasanaethau yn y farchnad, a chyda corfforaethau mawr yn rheoli'r farchnad, byddai absenoldeb cystadleuaeth yn golygu llai o ddewis a gwasanaeth gwaeth i bractisau'r stryd fawr. Roedd yn ofni y byddai'r monopoli yn arwain at ffioedd uwch hefyd. Dywedodd ymatebwr arall y gallai busnesau llai ei chael hi'n anodd buddsoddi yn y dechnoleg sydd ei hangen i ddefnyddio'r gwasanaeth EFT (nid yw'r rhan fwyaf o systemau rheoli achosion yn seiliedig ar XML). Tybiai y byddai'r Llywodraeth yn gwneud i'r Gofrestrfa Tir gynnal y gwasanaeth am elw, a byddai hyn yn ychwanegu at gostau cleientiaid. Roedd hefyd yn pryderu y byddai monopoli llywodraeth yn cynnal y system heb unrhyw gystadleuaeth yn y farchnad rydd.

Roedd un ymatebwr o'r farn fod y rhoddwyr benthyg mawr eisoes yn meddu ar ddylanwad anghymesur yn y farchnad ac na ddylid rhoi swyddogaeth mor hanfodol i un sefydliad bancio. Roedd yn dadlau y

dylai'r Banc Asiant fod yn annibynnol ac yn anfasnachol ond gofynnodd sut y byddai'n cael ei ariannu, o ystyried yr adnoddau sylweddol sydd eu hangen.

Dywedodd un ymatebwr y byddai gan gwmnïau mawr (a chwmnïau a oedd yn gefnogol i benodi'r Banc Asiant) fonopoli anochel oherwydd byddent mewn sefyllfa well i ysgwyddo costau penodol, megis costau trosglwyddo arian yn ôl ac ymlaen. Roedd un arall yn credu y byddai'r pum banc clirio yn rhoi ffigurau afrealistig wrth dendro ac yna'n methu â chyrraedd y safon. Gofynnodd a fyddai'r Banc Asiant yn atebol am golledion ar 60,000 o drafodion pe bai'r system yn methu.

Gofynnodd rhai ymatebwyr pam mai dim ond un banc fyddai'n cael ei benodi. Dywedodd un fod y cytundebau lefel gwasanaeth yn gadarn mewn egwyddor ond gofynnodd sut dylai trawsgludwyr a chleientiaid fonitro perfformiad. Roedd o'r farn y dylai'r Banc Asiant fod yn atebol i'r cleient, nid y Gofrestrfa Tir neu ymarferyddion. Yn ei farn ef, nid monopoli oedd y darparwr gwasanaethau gorau.

Roedd un ymatebwr yn ofni y gallai'r Llywodraeth benderfynu y byddai'n well gwario'r llog a enillir ar yr arian yng nghyfrifon y Banc Asiant ar bethau eraill. Digon hawdd fyddai anghofio'r ymrwymiad i dalu llog i'r partïon dan sylw a'i ddefnyddio, er enghraifft, i ariannu'r gwasanaeth EFT.

Roedd ymatebwr arall heb ei argyhoeddi o fanteision cwblhau ar amser arbennig ac roedd yn cwestiynu pam fod y syniad hwn wedi ei fabwysiadu. Soniodd am y drefn gyfredol lle mae'r rhan fwyaf o gadwyni'n cwblhau ar wahanol adegau o'r dydd ac yn symud yn annibynnol o'r amser y caiff arian ei drosglwyddo. Roedd yr amseru'n dibynnu ar faint o amser roedd y faniau symud dodrefn yn ei gymryd i lwytho ac ati. Gofynnodd pam fod amser cwblhau penodol yn cael ei ystyried yn angenrheidiol.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn fod yn rhaid cael maes chwarae gwastad, heb unrhyw fantais i naill ai'r rhai'r sy'n defnyddio neu'r rhai nad ydynt yn defnyddio EFT.

Costau a chyfraddau llog

Roedd y rhain yn peri problem i rai ymatebwyr. Awgrymodd un y byddai'n rhaid i'r cyfryw gyfraddau fod wedi eu cysylltu â'r cyfraddau a bennir gan Fanc Lloegr neu gorff annibynnol arall. Byddai'n rhaid i unrhyw gostau i ddefnyddwyr (er enghraifft, ar gyfer taliadau CHAPS a wneir allan) gael eu rheoleiddio neu eu gosod ar lefel benodol am oes y contract. Gofynnodd un arall a fyddai'r Banc Asiant, yn sgil ei fonopoli, yn gallu cynyddu'r taliadau roedd yn eu codi yn ystod cyfnod y contract. Dywedodd na fyddai hyn yn dderbyniol. Gofynnodd hefyd beth fyddai'n digwydd pe na bai safon y gwasanaeth a ddarperir gan y Banc Asiant yn ddigonol. A fyddai modd i'r Gofrestrfa Tir derfynu ei gontract a phenodi banc arall?

Roedd trydydd ymatebwr yn credu y dylid darparu'r gwasanaeth EFT am ddim.

Yn ôl un ymatebwr, gan dybio y byddai'r banciau'n tendro am y gwaith, dylai'r data gael ei gadw yn y DU ar gyfer ei brosesu. Yn ôl un arall, pe bai mwy nag un Banc Asiant yn cael ei benodi, rhaid iddynt oll godi'r un taliadau a chynnig yr un lefel o gyfraddau llog. Dywedodd traean y dylai budd-ddeiliaid gymryd rhan yn y trafodaethau caffael, oherwydd byddai gweithredwyr masnachol yn debygol o sicrhau telerau gwell na gweision sifil.

Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu am dryloywder y broses gaffael, y meini prawf a fyddai'n cael eu defnyddio, ac ai dim ond banciau'r DU fyddai'n gymwys ai peidio.

Gofynnodd un ymatebwr pwy fyddai'n tywys cleientiaid drwy'r broses.

Cwestiwn 5
Beth yw amser rhesymol rhwng derbyn yr arian a chwblhau?

i) 30 munud; ii) arall (nodwch).

Cyfanswm yr ymatebion – 177. Ymhelaethodd 55 ar eu hymateb.

Roedd 58 y cant o ymatebwyr yn ystyried 30 munud yn amser rhesymol.

Roedd yr ymatebion yn amrywio o "ar unwaith" i "24 awr", gyda 17 ymatebwr yn dweud y byddai awr yn fwy rhesymol. Mae'r amrywiaeth mawr rhwng yr ymatebion yn awgrymu bod gwahanol ymatebwyr wedi dehongli'r cwestiwn yn wahanol. Mae hyn yn amlwg yn rhai o'r sylwadau a ddaeth i law. Er enghraifft, roedd un o'r ymatebwyr a oedd o'r farn fod awr yn amser mwy rhesymol yn dweud ei fod yn ystyried y gwaith symud dodrefn a'r pellter rhwng gwahanol eiddo. Dywedodd un arall nad yw 30 munud yn ddigon o amser mewn cadwyni hir, tra dywedodd traean ei bod yn bosib na fyddai'r personél perthnasol ar gael.

Gwrthododd pum ymatebwr ddatgan amser oherwydd ei fod yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Dywedodd un arall fod cywirdeb yn bwysicach na thargedau amser, pwynt a **bwysleisiwyd** yn frwd gan eraill mewn rhannau eraill o'u hymatebion.

Gofynnodd un ymatebwr a oedd y term "rhwng derbyn yr arian a chwblhau" yn cynnwys amser i wirio bod y symiau a dderbynnir yn

gywir, neu ai cyfeirio'n unig yr oedd at yr amser rhwng y Gwasanaeth Canolog yn hysbysu'r Banc Asiant i wneud taliad, a'r amser mae'r Banc Asiant yn cadarnhau bod y taliadau wedi eu gwneud. Os mai'r olaf oedd yn wir, roedd yr ymatebwr o'r farn y dylai'r broses ddigwydd fwy neu lai ar unwaith mewn oes electronig.

Awgrymodd ymatebwr arall y dylai parti annibynnol fonitro derbyniadau taliadau ac y byddai hyn yn galluogi'r Gofrestrfa Tir i gytuno ar yr amser optimaidd rhwng derbyn yr arian a chwblhau. Roedd yr ymatebwr o'r farn na fyddai un Banc Asiant yn llwyddo'n ymarferol oherwydd, yn anochel, byddai gwrthdaro (gweithredol a masnachol) rhwng y Banc Asiant a banciau eraill yr oedd yn gorfod delio â nhw. Byddai parti annibynnol nid yn unig yn gallu monitro'r hyn a oedd yn cael ei gyflawni, ond hefyd pennu meini prawf perfformio fel bod y banciau'n setlo'n gyflym. Pe na byddai banc yn cydymffurfio, gallai taliadau gael eu hanfon i fanciau eraill a gydymffurfiodd.

Cwestiwn 6

Mae ariannu'r diwrnod cynt yn newid i'r arfer cyfredol, ond rydym o'r farn y bydd hyn yn hwyluso'r broses. Beth yw eich barn ar hyn?

Cyfanswm yr ymatebion – 168.

Dywedodd rhai ymatebwyr nad oedd hyn yn wahanol i'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd. Roedd eraill, fodd bynnag, o'r farn ei fod yn newid radical. O ystyried y gwahaniaeth barn hwn ynglŷn â'r pwynt mwyaf sylfaenol hwn, nid oedd fawr o syndod bod gwahaniaethau pellach.

Dyma bwyntiau y bydd angen eu hystyried ymhellach o bosib:

- sut bydd trawsgludwyr yn ymateb i golli'r llog a enillir ar arian yn eu cyfrifon cleientiaid
- a fydd pob rhoddwr benthyg a phrynwr yn cytuno i'r cynnig ai peidio
- sut bydd y gwasanaeth yn sicrhau bod cyfnewid a chwblhau yn digwydd ar yr un pryd
- a fydd angen diwygio gofynion CML, *Amodau Safonol* ac ati o ganlyniad i'r cynnig hwn.

I ymhelaethu ar y pwyntiau hyn:

Mae'r llog a enillir ar arian yn eu cyfrifon cleientiaid yn ffynhonnell incwm sylweddol i drawsgludwyr a bydd colli'r incwm hwnnw yn eu gorfodi i ddewis un o dri opsiwn:

- ysgwyddo'r golled
- trosglwyddo'r golled i'r cleient trwy godi taliadau uwch
- gwneud arbedion yn rhywle arall, drwy ailstrwythuro eu practis o bosib.

Mae'n bosib y bydd cwmnïau mwy mewn sefyllfa well i ysgwyddo'r golled mewn incwm. Yn achos cwmnïau llai, fodd bynnag, mae'n debyg mai'r ddau opsiwn olaf fydd y rhai mwyaf realistig. Mae rhai cwmnïau bach/ymarferyddion unigol yn ofni y byddant yn gorfod rhoi'r gorau i drawsgludo – a chan fod rhai trawsgludwyr yn gwneud gwaith am y gost sylfaenol ac yn dibynnu ar log ac incwm gan daliadau CHAPS i wneud elw, efallai fod sail i'r ofn hwn. Ac os ydynt yn cael eu gorfodi allan o'r farchnad, bydd hynny'n llesteirio natur gystadleuol y gwasanaethau trawsgludo yn gyffredinol.

Yn ôl llawer o ymatebwyr, er bod rhai rhoddwyr benthyg yn barod i ragariannu, mae eraill yn amharod i wneud hynny. Roeddynt yn cwestiynu sut byddai'r gwasanaeth yn delio â phrynwyr neu roddwyr benthyg a oedd yn gosod eu harian yn hwyr. Mae dibynadwyedd hefyd yn broblem yn achos rhai rhoddwyr benthyg – efallai eu bod yn cytuno i ragariannu mewn egwyddor, ond yn methu â gwneud hynny yn ymarferol, naill ai oherwydd eu bod yn gosod arian yn hwyr neu oherwydd bod eu datganiadau adbrynu yn anghywir. Roedd rhai ymatebwyr yn credu hefyd nad oedd y cynnig yn rhoi digon o ystyriaeth i nifer y problemau munud olaf a all godi, er enghraifft, rhoddwyr benthyg yn datgan gofynion ychwanegol, cymerwr benthyg yn methu â darparu atodlen yswiriant, neu wrthdaro rhwng y data a ddarperir gan y ddau barti mewn trafodiad.

Mae cyfnewid a chwblhau ar yr un pryd yn gyffredin mewn rhai ardaloedd o'r wlad, er enghraifft, rhannau o Swydd Gaerhirfryn. Gall amserlenni achosi problemau ac efallai y byddai'n ddoeth cynnal ymchwiliad (er enghraifft, mapio prosesau a llunio modelau busnes) i weld sut gellir cysoni'r arfer diwylliannol hwn gyda rhagariannu, neu sut gellir ei gynnwys yn y broses e-drawsgludo heb ragariannu.

Dylai cydymffurfiaeth â gofynion rheoliadol sy'n bodoli'n barod, neu ddiwygiadau iddynt, megis Rheolau Cyfrifon Cymdeithas y Cyfreithwyr, unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan CML ac unrhyw ymarfer safonol gan y diwydiant gael eu trafod ymhellach gyda'r budd-ddeiliaid perthnasol.

Credai lleiafrif o'r ymatebwyr fod y cynnig yn afrealistig am amryw resymau, y rhan fwyaf yn ymwneud â'r elfen ddynol, er enghraifft, bod cwblhau'n digwydd yn gyflym iawn mewn rhai achosion (hynny yw, o fewn oriau neu hyd yn oed munudau); bod prynwyr heb forgeisi yn trosglwyddo arian ar y funud olaf yn ddieithriad; nad oes modd cadarnhau ffigurau tan y funud olaf oherwydd bod asiantiaid rheoli eiddo prydles yn darparu ffigurau tâl gwasanaeth/rhent tir yn hwyr; bod rheswm i gredu na fydd y Banc Asiant yn perfformio'n foddhaol; ac nad yw'n rhesymol i ddisgwyl i brynwyr gyflwyno arian cyn eu bod yn bendant y bydd cwblhau yn digwydd. Fodd bynnag, mae'r amheuon hyn, i ryw raddau, yn cael eu negyddu gan y ffaith fod ymarferyddion eraill yn cadarnhau bod rhagariannu eisoes yn ymarfer cyffredin.

Cafodd cost a'r tebygolrwydd o dwyll, methiant technolegol a thoriadau trydan eu crybwyll fel problemau posib y mae angen eu hystyried ymhellach.

Cwestiwn 7
Beth yw eich barn ar yr atebion a gynigir ar gyfer cadwyni cymysg?

Cyfanswm yr ymatebion – 157

Roedd pob ymatebwr yn cydnabod bod cadwyni cymysg yn peri problem i'r gwasanaeth EFT. Roedd llawer o'r farn mai'r unig ffordd o ddatrys yr anawsterau oedd cyflwyno gorfodaeth ar unwaith. Credai eraill fod yn rhaid cael rhyw fodd o alluogi'r rhai nad oeddynt yn defnyddio e-drawsgludo, gan gynnwys trawsgludwyr amatur, i gymryd rhan yn EFT ac y dylid gohirio gorfodaeth tan fod y gwasanaeth wedi ennill ei blwyf.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu gorfodaeth yn gynnar yn y broses yn credu y dylid rhoi mynediad cyfyngedig i e-drawsgludo i'r rhai nad ydynt yn defnyddio'r gwasanaeth, er rhybuddiodd rhai y gallai hyn arwain at sefyllfa lle'r oedd yr ymarferyddion hynny'n cael popeth am ddim. Ychydig iawn gredai fod gwahanu cwblhau yn ôl amser yn syniad da, gyda llawer yn dadlau y byddai hyn yn annibynadwy ac yn achosi ansicrwydd, ac felly'n tanseilio prif bwrpas y gwasanaeth EFT. Roedd sawl ymatebwr o'r farn na fyddai'r cynnig yn ymarferol oni bai nad oedd modd i'r Banc Asiant wrthod derbyn cwsmer newydd: amod sy'n annhebygol o fod yn dderbyniol i fanc.

Roedd materion eraill a godwyd yn cynnwys:

- pwy fyddai'n gyfrifol am gywiro camgymeriadau a datrys problemau mewn trafodiad
- beth fyddai'n digwydd pe bai'r gadwyn yn cynnwys teitl digofrestredig neu eiddo yn yr Alban
- sut bydd partïon y gwahanol drafodion sy'n rhan o gadwyn yn gwybod pwy sy'n defnyddio EFT a phwy nad ydynt yn ei ddefnyddio
- a ddylid rhoi cymhellion i gwblhau rhwng dydd Llun a dydd Iau?

Mae angen ystyried a dadansoddi'r cwestiynau hyn ymhellach.

Cwestiwn 8
A oes unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer datrys cadwyni cymysg y byddech chi am i ni eu hystyried?

Cyfanswm yr ymatebion – 171. Cafwyd sylwadau gan 62.

Unwaith eto, roedd llawer o ymatebwyr o blaid gorfodaeth, gyda rhai'n datgan mai dyma'r unig ateb. Mae'n debygol ei bod yn wir i ddweud mai dim ond gorfodaeth all ddatrys y broblem cadwyni cymysg unwaith ac am byth. Fodd bynnag, fel y nododd ymatebwyr eraill, mae hyn yn creu ei broblemau ei hun – er enghraifft, cwsmeriaid yn colli'r rhyddid i ddewis, y posibilrwydd o fethiant yn y system, gan arwain at golli hyder yn y gwasanaeth EFT ac e-drawsgludo yn gyffredinol – ac mae'n debygol y byddai'n annerbyniol yn wleidyddol tan fod y gwasanaeth wedi ei dreialu'n ymarferol.

Yn achos cwsmeriaid sydd heb allu electronig, awgrymwyd y gallai practisau bach y stryd fawr ddarparu mynediad i EFT am dâl. Fodd bynnag, penderfyniad y farchnad yn hytrach na'r Gofrestrfa Tir fyddai hyn. Roedd eraill yn awgrymu y gallai'r Gofrestrfa Tir ei hun ddarparu mynediad o'r fath, trwy ei siopau stryd fawr ei hun o bosib, neu y gallai ymarferyddion sydd heb allu electronig benodi cwmni arall sydd â mynediad i EFT i gadw arian ar eu rhan.

Awgrymodd un ymatebwr y dylid cael cosbau ar gyfer cwmnïau nad oeddynt yn defnyddio EFT ond a oedd yn cymryd rhan trwy agor cyfrifon yn y Banc Asiant, ac yna'n methu â chydymffurfio â'r gofynion, er enghraifft, cyflwyno'r arian yn hwyr yn gyson, gan ddifetha'r system ar gyfer defnyddwyr eraill.

Yn ôl ymatebwyr nad oeddynt yn hoffi'r cynnig EFT, dylai'r banciau gynnig gwasanaeth trosglwyddo telegraffig gwell: fel hynny, ni fyddai angen EFT.[3]

Roedd un ymatebwr yn argymell rhoi cyhoeddusrwydd eang i'r gwasanaeth ac yna ei roi ar waith fesul cam. Byddai hyn yn rhoi cyfle i'r Gofrestrfa Tir ac eraill nodi unrhyw broblemau a'u datrys. Awgrymodd y gallai lansio'r gwasanaeth mewn un lansiad mawr ddieithrio darpar ddefnyddwyr pe byddai hyn, fel yr oedd yn debygol yn ei farn ef, yn cael ei ddilyn gan fethiannau yn y system neu anawsterau eraill.

Cwestiwn 9
A yw hi'n briodol gwahanu gofynion yn ôl preswyl a masnachol?

Cyfanswm yr ymatebion – 174. Cafwyd sylwadau gan 70.

Roedd llawer o ymatebwyr a oedd â phrofiad helaeth o drawsgludo masnachol yn pwysleisio bod y gofynion yn wahanol i rai'r farchnad breswyl. Roedd cadwyni'n anghyffredin iawn, ond roedd trafodion cymhleth yn cynnwys cymysgedd o gofrestriadau cyntaf, deliadau â'r cyfan, deliadau â rhan, trosglwyddiadau, trawsgludiadau, prydlesi ac offerynnau eraill, a thaliadau mewn arian tramor, yn gyffredin. Mae'n debygol y byddai rôl i EFT yn y gwaith o brosesu'r trafodion hyn, ond roedd natur y rôl honno a'r ffordd orau o'i chyflawni yn faterion i'r Gofrestrfa Tir a'i budd-ddeiliaid i ymchwilio iddynt a'u trafod ymhellach. Yn gyffredinol, cafodd y cynigion a nodir ym Mhennod 10 dderbyniad da.

Mae'r paragraffau canlynol yn ymhelaethu ar rai o'r sylwadau a ddaeth i law ac yn codi cwestiynau y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw cyn y gellir creu system EFT sy'n gweddu i'r farchnad fasnachol.

Mae trafodiad eiddo masnachol yn aml yn rhan o drafodiad mwy, er enghraifft, gallai trosglwyddo prydles fod yn rhan o drosglwyddo asedau neu fusnes cwmni. Efallai fod yn rhaid cwblhau'r trosglwyddiad eiddo ar yr un pryd â chwblhau gwerthiant gweddill y busnes ac asedau. Os yw'r system EFT yn mynd i gael ei defnyddio

[3] Mae'n werth nodi bod y Tasglu Systemau Talu, sy'n cael ei gadeirio gan y Swyddfa Masnachu Teg, wedi sicrhau cydsyniad y banciau yn ddiweddar i leihau'r amser mae'n ei gymryd i glirio taliadau electronig fel eu bod yn digwydd ar yr un diwrnod neu drannoeth. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn cael ei weithredu tan ddiwedd 2007.

yn y cyd-destun hwn, bydd angen iddi fod yn ddigon hyblyg i ddelio ag agweddau ariannol y trafodiad cyfan, os mai dyna sut mae'r partïon am i bethau fynd rhagddynt, neu i weithredu ar yr un pryd ac ochr yn ochr â'r broses o drosglwyddo asedau eraill.

Gall trafodion masnachol mawr gael eu gweithredu mewn ystafell ddelio a sefydlir gan unrhyw un o'r cwmnïau cyfreithiol dan sylw a byddai angen i'r system EFT fod yn ddigon hyblyg i weithio'n ddi-dor yn y cyd-destun hwnnw.

Mae'r mater o'r gyfradd llog sy'n daladwy hyd yn oed yn bwysicach yn achos trafodion masnachol. Mae cleientiaid yn disgwyl i'w cynrychiolwyr cyfreithiol fuddsoddi arian y maent yn ei gadw ar ran y cleientiaid, a allai fod yn filiynau yn achos trafodion masnachol mawr, er mwyn ennill cymaint o log â phosib. Mewn rhai achosion, gall cleientiaid fynnu pennu'r cyfraddau llog eu hunain. A fyddai'r Banc Asiant yn talu cyfradd llog gystadleuol? A fyddai cyfreithwyr a'u cleientiaid yn gallu rheoli cyfraddau llog i'r un graddau mewn deliadau cymhleth? Os mai 'na' yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau hyn, bydd cwsmeriaid masnachol yn gyndyn o fabwysiadu EFT.

Mae'r gwasanaeth EFT yn dibynnu ar air y Banc Asiant fel trydydd parti y gellir ymddiried ynddo, i gadarnhau ei fod wedi trosglwyddo'r arian cwblhau i'r partïon priodol ac mae cwblhau yn dibynnu ar y sicrwydd hwnnw. Ond pa mor hir fydd e'n ei gymryd i gredydu'r arian cwblhau i gyfrifon y derbynwyr gwahanol? Mae'r protocolau trosglwyddo y mae banciau'n eu dilyn ar hyn o bryd yn achosi oedi annerbyniol ar brydiau ac felly ni fyddant yn cynnal EFT yn ddigonol.

Mae llawer o ymatebwyr yn poeni pa mor gyflym y gellid dychwelyd arian, os oes angen gwneud hynny am ba bynnag reswm, er enghraifft, o ganlyniad i ddirymiad.

Gallai trafodion eiddo masnachol gynnwys arian ar wahân i sterling. Gallant hefyd gynnwys gwybodaeth sensitif am brisiau na ellir ei chyhoeddi.

Mae'n bosib nad yw arian yn cael ei drosglwyddo mewn trafodiad eiddo masnachol neu mae'n bosib bod arian yn cael ei drosglwyddo rhwng cyfrifon banc tramor yn unig. Felly, rhaid ei bod yn bosib cofrestru yn y Gofrestrfa Tir mewn ffordd arall heblaw'r broses awtomatig a ragwelir yn y drefn EFT.

Mae'n bosib na fydd rhai ffigurau cwblhau mewn trafodion cymhleth, megis swm y Dreth Tir Toll Stamp sy'n daladwy, ar gael ar gwblhau.

Rhaid ei bod yn bosib trosglwyddo arian a chwblhau trafodion 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos, 52 wythnos y flwyddyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer cwmnïau sydd â chleientiaid tramor.

Mae'n bosib y bydd yn rhaid ystyried ateb e-drawsgludo sy'n diwallu anghenion trafodion a) preswyl, b) masnachol, a c) preswyl/masnachol cymysg ar wahân. Efallai y bydd ateb preswyl a masnachol sy'n cael ei weithredu gan fwy nag un parti yn gofyn am ymgynghori cyfreithiol rhwng y Gofrestrfa Tir a'r Banc Asiant. Rhaid cofio nad yw categorïau preswyl a masnachol yn annibynnol ar ei gilydd. Gallai rhywun werthu tŷ i brynu siop sy'n cynnwys man byw. Mae eraill yn gwerthu busnesau ac yn prynu tŷ i fyw ynddo, er enghraifft, wrth ymddeol.

Yn aml, nid oes gofynion safonol ar gyfer trafodion masnachol ac ni fydd system anhyblyg yn rhoi'r hyblygrwydd angenrheidiol. Mewn rhai achosion sy'n codi, nid oes arian yn newid dwylo neu nid yw rhan o'r trafodiad yn arwain at ofynion cofrestru neu Dreth Tir Toll Stamp, er enghraifft, ewyllys da, gosodiadau a ffitiadau, a dosraniadau stoc.

Yn achos busnesau bach, er enghraifft, gwesty, mae'n bosib bod y perchennog yn byw yn yr eiddo ac yn gwerthu er mwyn prynu tŷ. Yn aml, mae gan berchnogion o'r fath gorddrafftiau gwarantedig. Bydd yn rhaid i fanciau rewi'r cyfrifon hyn y diwrnod cyn cwblhau er mwyn rhagariannu.

Efallai y bydd ymarferyddion masnachol yn dewis cymryd rhan yn y system pan fo amgylchiadau'n caniatáu hynny, yn achos un trafodiad syml er enghraifft, neu drawsgludo cefn-gefn eiddo masnachol.

Cwestiynau i fanciau fel darpar Fanciau Asiant

Nodyn: Er mai nifer fach o ymatebwyr a gwblhaodd yr adran hon, nid banciau oedd pob un ohonynt. Atebodd rhai ymarferyddion y cwestiynau gan ddefnyddio'u profiad o'r gwasanaethau a ddarperir gan fanciau yr oeddynt wedi delio â nhw. Mae hyn, i ryw raddau, yn egluro'r anghysonderau amlwg yn yr ymatebion. Mae hefyd yn cymhlethu'r dasg o ddehongli a phriodoli'r grym tystiolaethol. Mae'r olaf yn dibynnu ar y flaenoriaeth gymharol a roddir i arbenigedd, ar yr un llaw, ac amhleidioldeb ar y llaw arall.

Cwestiwn 10
Cadarnhewch a yw trosglwyddiadau llyfr yn derfynol yn eich banc.

Cyfanswm yr ymatebion – 4

Pedwar ymateb yn unig a ddaeth i law, pob un yn dweud 'ydynt'.

Cwestiwn 11
A oes unrhyw gamau cyfreithiol neu weithredol y mae'n rhaid eu cymryd i sicrhau bod trosglwyddiadau llyfr yn derfynol?

Cyfanswm yr ymatebion – 8

Mae'r paragraffau canlynol yn crynhoi'r ymatebion.

Y farn gyffredin yw bod taliad trwy drosglwyddiad arian o fewn cangen wedi ei gwblhau pan fo'r banc yn penderfynu gwneud y trosglwyddiad, hynny yw, a) bod gan y banc awdurdod y sawl sy'n derbyn yr arian i dderbyn y trosglwyddiad ar ei ran, a b) bod arian clir a digonol ar gael er mwyn i'r trosglwyddiad llyfr fynd rhagddo. Nid yw'n hanfodol bod cyfrif y sawl sy'n cael ei dalu wedi ei gredydu gyda'r arian a drosglwyddwyd (nid oedd angen ei hysbysu am y trosglwyddiad hyd yn oed), neu fod yr arian wedi gadael cyfrif y talwr. Fodd bynnag, mae'r digwyddiadau dan a) a b) uchod yn rhoi tystiolaeth i'r llysoedd bod y banc wedi penderfynu gwneud y trosglwyddiad.

Gan mai rheol gyffredinol yw hon, dylai'r Banc Asiant ddisgwyl gwneud cytundeb eglur gyda'r Gofrestrfa Tir er enghraifft, trwy gytuno i hyn mewn unrhyw gontract gyda'r Gofrestrfa Tir neu yn rheolau'r Gofrestrfa Tir, nad yw taliad yn cael ei ystyried fel un sydd wedi ei gwblhau tan fod digwyddiad penodol, fel cyhoeddi hysbysiad, wedi digwydd.

Rhaid mabwysiadu'r holl fesurau diogelwch angenrheidiol rhag i arian electronig gael ei ddwyn, fel yn achos cardiau credyd a dwyn llyfrau sieciau.

Mae dau gwestiwn yn codi: a) a fydd banc yn debydu cyfrif cleient os yw'r taliad yn un twyllodrus? A b) a allai pob taliad ar fatrics gael ei rewi os yw un yn cael ei wneud gydag arian sydd wedi ei wyngalchu?

Dywedodd un ymatebwr y dylai hysbysiad electronig gan y banc fod yn gadarn ac na ddylai fod modd i'r banc ei ddirymu oherwydd, fel arall, yn aml ni fyddai cyfreithwyr yn gweithredu tan fod yr arian yn cael ei ddychwelyd i'r cyfrif banc.

Dywedodd un banc fod taliad yn cael ei ystyried yn derfynol cyn gynted â bod y swm perthnasol wedi ei roi yng nghyfrif y sawl a oedd yn ei dderbyn ac y byddai angen awdurdod deilydd y cyfrif i ddebydu'r cyfrif. Mae angen ymchwil bellach i ganfod sut mae'r gofyniad hwn yn cyd-fynd â'r cynnig y bydd trawsgludwyr yn berchen ar gyfrifon yn y Banc Asiant ond y bydd cyfarwyddiadau i dalu yn cael eu gwneud gan y Gwasanaeth Canolog.

Cwestiwn 12
Beth yw'r amser byrraf y gellir prosesu'r holl drosglwyddiadau llyfr mewn cadwyn? (Rhowch eich ateb mewn munudau.)

Cyfanswm yr ymatebion – 8

Mae'r gyfradd ymateb isel yn golygu bod unrhyw gasgliadau a wneir yn ansicr ac y gellid eu cadarnhau neu eu diystyru o ddod o hyd i dystiolaeth bellach. Am y tro, ni allwn ond dweud bod pedwar ymatebwr wedi rhoi ateb o 30 munud, a chafwyd ateb o funud, pum munud, 15 munud a 20 munud gan y pedwar ymatebwr arall.

Mae sylwadau eraill wedi eu crynhoi yn y paragraffau canlynol.

Yn ôl un ymatebwr, er mwyn i Fanc Asiant wneud trosglwyddiad llyfr, byddai cyfarwyddyd yn cael ei roi gan naill ai'r Gwasanaeth Canolog (setliad) neu'r trawsgludwr (rhagariannu). Roedd yr ymatebwr yn tybio bod y cwestiwn yn cyfeirio at yr amser rhwng yr adeg mae'r Banc Asiant yn derbyn cyfarwyddyd i dalu a'r adeg y mae'r Gwasanaeth Canolog yn cyhoeddi hysbysiad.

Er mwyn gweithredu trosglwyddiad llyfr, byddai'n rhaid i'r Banc Asiant sicrhau bod digon o arian (gwirio arian) yng nghyfrif y talwr. Rhaid goruchwylio'r cyfrif cleient yn gyson i osgoi mân wallau a rhaid i bob cyfrifiad gael ei wirio'n annibynnol. Byddai hyn yn creu rhywfaint o oedi. Gan y byddai arian yn cael ei dderbyn ar D-1 (rhagariannu), yn achos y broses gyfredol, byddai'r arian yn cael ei wirio pan fyddai'r trosglwyddiad yn cael ei weithredu. Mae'n ymddangos y byddai hyn yn rhy hwyr at ddibenion EFT oherwydd, er mwyn cael y sicrwydd angenrheidiol ynglŷn â'r canlyniad, byddai'n rhaid gwybod bod yna ddigon o arian mewn da bryd cyn i'r trosglwyddiad gael ei weithredu.

Byddai'n rhaid i'r Gwasanaeth Canolog gael hysbysiad electronig bod trosglwyddiad llyfr wedi ei weithredu o, neu wedi ei gredydu i, gyfrif y buddiolwr. Er nad oedd hysbysiad ar gyfer cofnod llyfr ar gael ar hyn o bryd ar gyfer trosglwyddiadau llyfr, nododd yr ymatebwr y byddai'n rhaid i ymgeiswyr ar gyfer y swyddogaeth Banc Asiant ystyried dichonolrwydd creu gwasanaeth o'r fath, a oedd fel arfer wedi ei gyfyngu i dderbyniadau Taliadau CHAPS a Thaliadau Rhyngwladol.

Gan y byddai trosgwlyddiad llyfr yn cael ei weithredu ar y broses gwirio arian lwyddiannus yn systemau'r Banc Asiant, y peth pwysig oedd pa mor hir y byddai'n ei gymryd i'r hysbysiad gyrraedd y Gwasanaeth Canolog er mwyn cofrestru setliad. Ar hyn o bryd, roedd yr hysbysiadau a gynigir ar gyfer Taliadau CHAPS a Thaliadau Rhyngwladol ar gael o fewn munudau i weithredu'r trafodiad. Mae'n bosib y bydd angen ymchwil bellach i bennu a ellid ehangu'r gwasanaeth hysbysiadau i gynnwys trosglwyddiadau llyfr. Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu bod estyniad o'r fath yn ddichonadwy.

Dywedodd rhai ymatebwyr y byddai'r broses gyfredol o drosglwyddo llyfr yn gallu gweithredu trosglwyddiadau o fewn pum munud yn ei

systemau cyfredol ond nid oeddynt yn siŵr y byddai'r hysbysiad i'r Gwasanaeth Canolog yn cael ei dderbyn o fewn munud heb ymchwil bellach.

Un pwynt hanfodol yw nad yw banciau yn prosesu cadwyni o daliadau yn eu model busnes presennol – mae pob taliad yn drafodiad ar wahân. O'r herwydd, nid oes ganddynt ddull o gydgadwyno taliadau yn y modd a ragwelir gan y cynnig EFT. Fodd bynnag, maent yn derbyn ffeiliau taliadau gan gwsmeriaid a gallant brosesu cannoedd o'r cyfryw daliadau o fewn munudau. Nid yw'n eglur a ellid addasu'r gallu hwn yn hawdd ac yn ddarbodus i hwyluso'r gwaith o brosesu cadwyni o daliadau.

Cwestiwn 13
Sut bydd hyn yn cael ei effeithio os oes nifer o gadwyni yn cwblhau ar yr un pryd?

Cyfanswm yr ymatebion – 7

Roedd yr ymatebion yr un fath â'r rhai ar gyfer Cwestiwn 12.

Mae sylwadau eraill wedi eu crynhoi yn y paragraffau canlynol.

- Gall y broses fod yn arafach os oes yn rhaid setlo nifer o gadwyni, ond heb ymchwilio manwl, mae'n amhosib dweud faint o oedi y bydd hyn yn ei achosi.
- Dylai bod modd i fanciau sefydlu dull o brosesu mewn swmp unrhyw nifer o drosglwyddiadau llyfr ar yr un pryd os yw defnyddwyr yn rhagariannu. Mae hyn yn ddigwyddiad cyffredin mewn bancio masnachol a chlirio canolog.
- Roedd un ymatebwr o'r farn fod yr elfen hon yn cymhlethu'r cynnig EFT ac yn ei wneud yn llai deniadol.
- Dywedodd un banc ei bod yn amhosib dweud, oherwydd nad oedd unrhyw waith modelu gallu/trwybwn wedi ei wneud. Fodd bynnag, mae'n prosesu dros 80,000 eitem y dydd yn ei system prosesu CHAPS, a miliynau ar filiynau yn ei system BACS, sy'n awgrymu na fydd rhifau yn broblem. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, nid y nifer sy'n peri problem bosib ond y gallu/anallu i gydgadwyno taliadau.

Cwestiwn 14
Beth yw'r amser byrraf y gellir prosesu taliadau CHAPS? (Rhowch eich amser mewn munudau.) Rhowch sylwadau ar ddichonoldeb a chost.

Cyfanswm yr ymatebion – 10

Mae'r amrywiaeth yn yr ymatebion i ran gyntaf y cwestiwn hwn yn awgrymu nad oedd pob ymatebwr wedi deall y cwestiwn yn yr un

ffordd. Roedd pedwar ymatebwr yn credu mai un i dri munud oedd yr amser byrraf y gellid prosesu taliadau CHAPS; roedd un ymatebwr yn credu 10 munud; roedd dau yn credu 15 munud; dau yn credu 20 munud tra'r oedd un ymatebwr yn credu 60 munud.

Mae'n bosib bod y gair 'prosesu' braidd yn amwys. Fodd bynnag, mae'r ymatebion hefyd yn awgrymu bod gan fanciau ac ymarferyddion farn dra gwahanol ar y pwnc hwn.

Yn ôl un banc, os oedd y term 'prosesu' yn golygu'r amser y mae'n ei gymryd i'r Banc Asiant dderbyn y taliad ac anfon hysbysiad i'r Gwasanaeth Canolog, yna, yn achos y taliad CHAPS allan, byddai hysbysiad yn cael ei greu ar gyfer y talwr, sef y Gwasanaeth Canolog yn yr achos hwn, o fewn dau neu dri munud o'r amser y'i proseswyd gan y Banc Asiant, ac, yn achos taliad CHAPS i mewn, byddai hysbysiad yn cael ei greu ar gyfer y buddiolwr, sef y Gwasanaeth Canolog unwaith eto yn yr achos hwn, o fewn pum munud.

Dywedodd ymatebwyr eraill, ill dau'n ymarferyddion, mai 10 munud oedd yr amser byrraf yr oeddynt wedi dod ar ei draws mewn ymarfer preifat. Roedd y ddau'n credu bod y system CHAPS yn rhy ddibynnol ar staff banciau – os nad oedd unigolyn allweddol ar gael i awdurdodi taliadau (digwyddiad cyffredin), gallai'r broses gymryd cyhyd â phedair awr. Roeddynt hefyd yn awgrymu y dylid safoni'r taliadau a godir am CHAPS gan bob banc clirio yn hytrach na bod modd eu negydu fel sy'n wir ar hyn o bryd.

Dim ond un ymatebwr a fynegodd bryder ynglŷn â chostau posib taliadau CHAPS. Nododd fod cost ychwanegol (a godir gan Fanc Lloegr) ar gyfer taliadau CHAPS, yn ogystal â'r costau ychwanegol o ddarparu hylifedd o fewn y diwrnod i ariannu'r taliadau.

Cwestiwn 15
Gallai sefydlu cyfrifon ar gyfer taliadau arwain at gostau a gwaith gweinyddol. Sut gellid mynd i'r afael â hyn?

Cyfanswm yr ymatebion – 12

Unwaith eto, roedd y sylwadau'n adlewyrchu rhaniad yn yr ymatebwyr rhwng banciau ac ymarferyddion.

Awgrymodd un ymatebwr y dylai'r costau gael eu talu gan y ffi Cofrestrfa Tir a delir gan y prynwr.

Dywedodd dau fanc y gallent sefydlu cynifer o gyfrifon ag yr oedd eu hangen ar EFT (gan ddefnyddio meddalwedd perchnogol o bosib) ac awgrymodd un y gellid gwrthbwyso costau gwneud hynny yn erbyn cyfanswm gwerth y trafodion taliadau a brosesir. Byddai cymorth cefn swyddfa priodol yn cael ei ddarparu.

Awgrymodd un ymatebwr y dylai Cymdeithas y Cyfreithwyr, mewn cydweithrediad â Chyngor y Trawsgludwyr Trwyddedig, wirio statws y cwmnïau sy'n ymgeisio a chwnsleriaid mewnol fel y gellid sefydlu cyfrifon heb yr angen i gyflwyno'r prawf o hunaniaeth arferol. Yn ôl un arall, pe bai gan bob cwmni gyfrif gyda'r Banc Asiant a bod pob cadwyn yn cael cyfeirnod unigryw, yna byddai modd gwybod bod yr arian sy'n cael ei dalu gan yr holl bartïon yn perthyn i gadwyn benodol. Byddai ffi trosglwyddiad telegraffig yn cael ei godi am bob taliad cadwyn, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, pan gaiff arian ei drosglwyddo.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr eraill yn credu y byddai'n rhaid i'r cleient ysgwyddo'r costau, er rhybuddiodd un mai'r tâl uchaf derbyniol fyddai £30 + TAW.

Cwestiwn 16
Yn arbennig, beth ddylai'r Gofrestrfa Tir fod yn gyfrifol amdano a beth ddylai'r Banc Asiant fod yn gyfrifol amdano?

Cyfanswm yr ymatebion – 10

Mae'n amlwg bod y cwestiwn ai strwythur cyfrif sengl neu gyfrifon lluosog sy'n cael ei ddefnyddio yn un hanfodol. Mae'r cyfrif sengl yn llawer haws i'w weithredu na chyfrifon sy'n dal arian yn enw pob prynwr, trawsgludwr neu roddwr benthyg. Gallai'r angen i agor a chau cyfrifon lluosog yn gyson fod yn anymarferol a bydd yn sicr yn ddrud. Bydd angen ymchwil bellach, dadansoddiad o ddichonolrwydd ac effaith a thrafodaeth gyda'r banciau i egluro a gwella'r agwedd hon ar EFT.

Roedd rhai ymarferyddion yn credu y dylai'r Gofrestrfa Tir fod yn gwbl gyfrifol am sefydlu cyfrifon, roedd eraill yn credu y dylid rhannu'r cyfrifoldeb yn gyfartal rhwng y Gofrestrfa Tir a'r Banc Asiant, tra bod eraill o'r farn y dylai'r Banc Asiant fod yn gwbl gyfrifol am y mater.

Er nad oedd patrwm amlwg i'w weld yn safbwyntiau'r ymarferyddion, nid oedd yr un peth yn wir am y banciau. Mae sefydlu cyfrifon yn broses lafurus sy'n cynnwys gwiriadau *know your customer/client* (KYC) a gwaith gweinyddol. Lleiaf oll y mae banciau'n ymwneud â hyn a mwya'n byd y mae eu swyddogaeth wedi ei chyfyngu i drafod taliadau, hapusaf oll y byddant.

Cwestiwn 17
Sut dylid rhoi cyfarwyddiadau i dalu?

Cyfanswm yr ymatebion – 12

Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno mai diogelwch oedd yr elfen bwysicaf, ond nid oeddynt yn cytuno ar y ffordd orau o sicrhau diogelwch. Er enghraifft, roedd rhai'n ystyried y rhyngrwyd yn anniogel ac roedd yn well ganddynt ddulliau eraill, tra'r oedd eraill yn fodlon â defnyddio'r rhyngrwyd. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn credu y dylid defnyddio cyfrineiriau a mesurau diogelwch eraill.

Mae'r banciau'n datblygu gwahanol sianeli ar gyfer gwneud taliadau, ac maent yn barod i drafod y rhain yn fanwl gyda'r Gofrestrfa Tir fel rhan o'r paratoadau ar gyfer caffael Banc Asiant.

Cwestiwn 18
Rhowch eich ymateb i'r drafodaeth am strwythur cyfrifon yn y ddogfen hon.

Cyfanswm yr ymatebion – 10

Rhaid cyfaddef nad oedd y strwythur cyfrifon wedi ei gyflwyno'n hollol eglur yn y ddogfen. Mae'r crynodeb gweithredol ar dudalen 7 yn awgrymu y bydd y cyfrifon dan ofal y Gofrestrfa Tir, mae Pennod 5 yn amwys, ac mae Pennod 7 yn cynnig nifer o opsiynau. Nid yw'n syndod bod yr ymatebion braidd yn ddryslyd, sy'n adlewyrchu nid yn unig y gwahaniaeth barn ymysg ymatebwyr, ond hefyd yr amwysedd yn y ddogfen ei hun.

Serch hynny, roedd yr ymatebion yn nodi nifer o bwyntiau y mae angen eu hystyried a'u dadansoddi ymhellach.

Rhaid iddi fod yn fwy amlwg pwy sy'n gyfrifol am wirio gyda rhoddwyr benthyg morgeisi ynglŷn â rhyddhau arian a ffigurau adbrynu.

Nid yw'n glir a yw'r defnydd o gyfrif sengl ar gyfer mwy nag un cleient yn cydymffurfio â Rheolau Cyfrifon Cymdeithas y Cyfreithwyr. Fodd bynnag, nododd banciau y byddai agor a chau cyfrifon lluosog yn cynyddu costau gweinyddol yn sylweddol, yn rhannol o leiaf oherwydd yr angen i gynnal gwiriadau KYC. O safbwynt y banciau, byddai cyfrif sengl yn llai cymhleth, yn fwy darbodus ac yn haws i'w reoli. Mae'n bosib, felly, y bydd gwrthdaro parhaus rhwng gofynion cyfreithiol a phrotocolau bancio.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn fod y strwythur cyfrifon arfaethedig yn rhy gymhleth, tra'r oedd eraill angen rhagor o wybodaeth.

Roedd un ymatebwr yn ofni y gallai'r gwasanaeth arwain at gostau ychwanegol i ymarferyddion, a chredai y byddai ffatrïoedd trawsgludo mawr yn gallu ysgwyddo'r gost, tra na fyddai ymarferyddion bach yn gallu gwneud hynny a byddent yn cael eu gorfodi i roi'r gorau i drawsgludo, gan felly leihau'r dewis i gwsmeriaid.

Cwestiwn 19
A allai'ch banc weithredu'r ad-dalu defnyddwyr ar y sail a ddisgrifir yn y ddogfen hon?

Cyfanswm yr ymatebion – 5

Roedd rhai ymatebwyr yn tybio y byddai'r Gofrestrfa Tir yn berchen ar y cyfrifon yn y Banc Asiant ac felly y gellid priodoli'r llog ar y gronfa barod a thaliadau a godir ar drafodion i'r Gofrestrfa Tir, ac y byddai angen eu trosglwyddo i'r prynwr drwy law'r trawsgludwyr perthnasol. Roeddynt yn amau a fyddai'r Banc Asiant yn gallu rhag-gyfrifo'r llog taladwy dan yr amgylchiadau hyn.

Roedd un banc yn credu y gallai rhag-gyfrifo llog ar gyfrifon, boed yn unigol neu'n lluosog, ond dywedodd un arall y dylai'r Gofrestrfa Tir fod yn gyfrifol am ddosrannu llog, er y gallai'r banc chwarae rôl hwyluso, ond ni roddwyd manylion am union natur y rôl hon.

Cwestiwn 20
Beth yw eich ymateb i'r drafodaeth am Fanciau Asiant lluosog?

Cyfanswm yr ymatebion – 14

Roedd barn ymatebwyr yn amrywio, gyda mwyafrif trwch blewyn o blaid un Banc Asiant, eraill o blaid mwy nag un Banc Asiant, a'r gweddill o'r farn nad oedd y ddogfen yn rhoi digon o wybodaeth ar gyfer gwneud dewis.

Fodd bynnag, cafwyd cydsyniad bod gan un Banc Sengl y manteision o fod yn syml ac yn gyflym, ond roedd hefyd yn achosi risgiau sy'n gysylltiedig â chael un pwynt methiant a chyda diffyg cystadleuaeth i ysgogi gwelliannau mewn safonau gwasanaeth neu hyd yn oed eu cynnal. Byddai cael mwy nag un Banc Asiant yn lleihau'r ddwy risg hynny ond ar draul gwneud y gwasanaeth yn llawer mwy cymhleth, yn rhy gymhleth i'w gynnal o bosib.

Cwestiwn 21
Beth yw eich ymateb i'r materion canlynol a restrir ym Mhennod 11:
Parhad busnes ac adfer mewn argyfwng?

Cyfanswm yr ymatebion – 8

Roedd pob ymatebwr yn gytûn bod darpariaethau cadarn ar gyfer parhad busnes ac adfer mewn argyfwng yn annatod, yn enwedig o ystyried y bygythiad gan derfysgaeth a throseddu cyfundrefnol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chael un Banc Asiant. Roedd y banciau eu hunain yn hyderus y byddent yn gallu sicrhau'r lefel gwasanaeth gofynnol gyda'u darpariaeth gyfredol a phwysleisiwyd cefndir rhagorol banciau'r DU yn y maes hwn.

Diogelwch cyfathrebu?

Cyfanswm yr ymatebion – 9

Mae cysylltiad agos rhwng diogelwch a pharhad busnes ac roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn debyg i'r rhai ar gyfer y cwestiwn blaenorol. Unwaith eto, roedd sicrwydd o safonau uchel yn cael ei ystyried yn hanfodol.

Cywirdeb a'r gallu i archwilio?

Cyfanswm yr ymatebion – 8

Roedd pob ymatebwr yn cytuno bod cywirdeb a llwybrau archwilio dibynadwy yn hanfodol. Awgrymodd un y dylem drafod ein cynigion gyda Chymdeithas y Cyfreithwyr a Chyngor y Rhoddwyr Benthyg Morgeisi i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion proffesiynol. Mae'n werth nodi bod anghysondebau yng nghyfrifon cleientiaid cyfreithwyr yn gallu arwain at wrandawiadau disgyblu ar hyn o bryd, ac mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd cywirdeb a gallu i archwilio i'r proffesiwn cyfreithiol.

Safonau (hawl a gallu'r Gofrestrfa Tir i ddisodli Banciau Asiant neu ddefnyddio mwy nag un Banc Asiant ochr yn ochr â'i gilydd)?

Cyfanswm yr ymatebion – 9

Roedd ymatebwyr yn gytûn am bwysigrwydd safonau ond roedd amrywiaeth barn ynglŷn â'r ffordd orau o sicrhau bod safonau uchel yn cael eu pennu a'u cynnal wrth ymarfer. Roedd rhai'n argymell y dylai'r Gofrestrfa Tir bennu'r safonau ar gyfer y gwasanaeth EFT – byddai unrhyw beth yn llai yn golygu nad oedd gan y Gofrestrfa Tir reolaeth dros y broses. Nododd eraill y gallai safonau penodol ei gwneud hi'n anodd symud i ddarparwr gwasanaeth arall ac roeddynt yn argymell mabwysiadu safonau'r diwydiant, megis SWIFT, sy'n cael eu defnyddio gan bob banc.

Lefelau gwasanaeth gan gynnwys systemau cydymffurfio a chontractau?

Cyfanswm yr ymatebion – 8

Roedd banciau'n hyderus o'u gallu i fodloni'r holl lefelau gwasanaeth rhesymol sydd eu hangen. Roedd ymarferyddion o'r farn fod angen lefelau gwasanaeth uchel sy'n cael eu cefnogi gan ymrwymiadau contract a systemau cydymffurfio cadarn er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion y farchnad.

Dibynadwyedd?

Cyfanswm yr ymatebion – 9

Unwaith yn rhagor, mynegodd banciau hyder yng ngwydnwch a dibynadwyedd eu systemau cyfredol. Yn ôl ymarferyddion, pe bai'r darparwr gwasanaeth a ddewisir yn cael ei ganfod i fod yn annibynadwy, dylai'r cyfrifoldeb am dor-contract gael ei ysgwyddo'n llwyr gan y Gofrestrfa Tir neu ei rannu rhwng y Gofrestrfa Tir a'r Banc Asiant.

Gallu?

Cyfanswm yr ymatebion – 7

Fel gyda'r materion blaenorol, roedd ymatebwyr yn gytûn ar bwysigrwydd gallu, yn enwedig ar yr adegau prysuraf, er enghraifft, dydd Gwener cyn penwythnos gŵyl y banc, pan gall hyd at 100,000 o drafodion gael eu cwblhau a byddai'n rhaid bod y Banc Asiant yn gallu prosesu'r holl daliadau cysylltiedig. Nid oedd banciau'n credu y byddai nifer y trafodion yn broblem. Ond roedd ymarferyddion yn dadlau bod lefelau gwasanaeth cyfredol banciau yn wael ac roeddynt yn awgrymu'n frwd y gallai goblygiadau staffio a chyfathrebu'r gwasanaeth arfaethedig ei gwneud yn amhosib darparu gwasanaeth am gost dderbyniol.

Argaeledd y tu allan i oriau bancio arferol?

Cyfanswm yr ymatebion – 11

Roedd ymatebwyr yn anghytuno, gyda rhai yn ystyried hwn fel rhagofyniad ar gyfer cyflwyno gwasanaeth EFT ar gyfer eiddo masnachol, tra'r oedd eraill yn dadlau nad oedd angen ymestyn oriau gwaith arferol ac roeddynt yn pryderu y gallai'r cyfryw estyniad, waeth a oedd hyn wedi ei fwriadu ai peidio, orfodi ymarferyddion i weithio oriau hwy er mwyn ymdrin â phroblemau ac ymholiadau gan gleientiaid. Byddai hyn yn ychwanegu at gostau a hefyd yn gwthio cwmnïau bach neu ymarferyddion unigol allan o'r farchnad, oherwydd ni fyddai'r adnoddau ganddynt i fodloni'r gofyniad hwn.

Cwestiwn 22
Beth yw'r prif risgiau sy'n gysylltiedig ag EFT yn eich barn chi? Rhestrwch y risgiau a'u rhifo o 1 i 5 yn ôl maint y risg (gyda 1 yn risg isel a 5 yn risg uchel).

Cyfanswm yr ymatebion – 10

Mae ceisio dehongli'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn fanwl-gywir yn gymhleth oherwydd mae'n bosib bod ymatebwyr gwahanol wedi defnyddio geiriau gwahanol i ddynodi'r un risg. Er enghraifft, mae'n

bosib bod un ymatebwr wedi nodi tueddiad y system i drosedd fel risg, tra bod ymatebwr arall, heb anghytuno â'r cyntaf yn y bôn, wedi ystyried tueddiad o'r fath fel un agwedd yn unig ar ddibynadwyedd y gwasanaeth yn gyffredinol. A gallai trydydd ymatebwr, unwaith eto heb anghytuno â'r ddau gyntaf, fod wedi crybwyll yr un mater dan 'diogelwch'. O'r herwydd, mae'r dadansoddiad canlynol yn cael ei fynegi mewn termau cyffredinol ac ni fydd yn ceisio meintioli'r risgiau na'u rhestru yn ôl trefn maint.

Yn achos y rhan fwyaf o ymatebwyr, mae'n ymddangos bod y risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth EFT yn canolbwyntio ar ddibynadwyedd, diogelwch ac atebolrwydd. Gellir sôn ychydig am bob un o'r rhain.

Dibynadwyedd
Rhaid i'r system fod ar gael pan mae hi i fod ar gael. Ni fydd problemau cyfrifiadurol sy'n rhwystro defnydd o'r system am amser hir yn dderbyniol. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid cael systemau cadarn ar gyfer parhad busnes ac adfer mewn argyfwng. Rhaid i'r addewidion a nodir mewn unrhyw gytundeb lefel gwasanaeth rhwng y Banc Asiant a'r Gofrestrfa Tir fod yn sail i'r cyfryw systemau. Mae'n bwysig sylweddoli bod y gofyniad hwn yn berthnasol yn yr un modd i'r Banc Asiant a'r Gwasanaeth Canolog.

Mae agweddau eraill ar ddibynadwyedd hefyd gan gynnwys gallu'r Banc Asiant i brosesu nifer y taliadau sydd eu hangen ar yr adegau prysuraf; a chywirdeb data craidd a'r cyfrifon a wneir, a'r cyfarwyddiadau talu a gyhoeddir, gan y Gwasanaeth Canolog.

Diogelwch
Mae hyn yn cynnwys imiwnedd rhag categorïau amrywiol o droseddau er enghraifft, twyll, gwyngalchu arian, a mesurau diogelwch priodol i sicrhau cyfrinachedd. Rhaid i arian a negeseuon cyfathrebu gyrraedd y bobl gywir a rhaid sicrhau nad oes modd i unrhyw unigolion heb awdurdod gael gafael arnynt.

Atebolrwydd
Rhaid bod pob parti'n deall sut mae cyfrifoldebau wedi eu rhannu rhwng ymarferyddion, y Banc Asiant a'r Gofrestrfa Tir. Yn arbennig, rhaid egluro'r amgylchiadau lle darperir iawndal, a'r mecanwaith ar gyfer pennu cyfrifoldeb.

Roedd risgiau eraill a nodwyd yn cynnwys costau gweithredu uchel, un pwynt methiant yn y Banc Asiant, a nifer prin o drawsgludwyr yn mabwysiadu e-drawsgludo.

Cwestiwn 23
Beth yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r risgiau hyn?

Cyfanswm yr ymatebion – 4

Ychydig iawn o ymatebwyr a oedd yn barod i awgrymu ffyrdd o reoli neu leihau risg. Mae'n debygol mai'r rheswm dros hyn yw ei bod yn anodd dychmygu sut bydd gwasanaeth yn gweithio'n ymarferol pan nad yw ond yn gysyniad ac, yn ddealladwy, amharodrwydd dealladwy i hapfasnachu.

Cytunai ymatebwyr y dylai'r Gofrestrfa Tir, lle bo'n briodol, gydweithredu â chyrff rheoleiddio, megis Cyngor y Rhoddwyr Benthyg Morgeisi a Chymdeithas y Cyfreithwyr, i sicrhau cydymffurfiaeth â chodau cyfredol ac i gytuno ar brosesau ar gyfer mynd i'r afael â materion penodol – er enghraifft, diogelu data. Gallai risgiau eraill, er enghraifft, y rhai sy'n ymwneud â gallu, diogelwch, dibynadwyedd, argaeledd a safonau perfformiad gael eu rheoli gan ddarpariaethau addas yn y cytundeb lefel gwasanaeth rhwng y Gofrestrfa Tir a'r Banc Asiant.

Awgrymodd un ymatebwr y dylai'r Gofrestrfa Tir ei hun weithredu fel y Banc EFT, ond nid yw hyn yn ymarferol am dri rheswm.
Mae darparu gwasanaethau bancio y tu allan i gylch gwaith y Gofrestrfa Tir.
Pe bai'r Gofrestrfa Tir yn gweithredu fel banc, gallai gael ei chynnwys o fewn cwmpas yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol.
Byddai'n hwb sylweddol i atebolrwydd y Gofrestrfa Tir i hawliadau am iawndal.

Cwestiynau i fanciau ynglŷn â phrisio

Cwestiwn 24
Mae'r Gofrestrfa Tir yn rhagweld na fydd cost cyfalaf i sefydlu'r broses. Bydd y Banc Asiant yn adennill costau drwy'r taliadau a godir ar gyfer trafodion. A yw hyn yn ddichonadwy? A oes unrhyw gafeatau?

Cyfanswm yr ymatebion – 8

Roedd hi'n bwysig i'r ymarferyddion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn na ddylai EFT wneud trawsgludo yn ddrutach nag y mae ar hyn o bryd. Roedd rhai o'r farn y byddai'r taliadau sy'n cael eu codi gan y Banc Asiant yn cael yr union effaith honno. Roedd eraill yn ofni y gallai'r Llywodraeth ychwanegu treth gwerthiannau at y taliadau a godir gan y Banc Asiant ac roeddynt yn rhybuddio na fyddai llawer o bobl yn mabwysiadu e-drawsgludo pe bai hynny'n digwydd.

Roedd banciau, yn eu hymatebion, yn dangos parodrwydd i drafod costau ffafriol, ond roeddynt hefyd yn rhybuddio bod angen ymchwilio ymhellach i gostau datblygu a'r dichonolrwydd o adennill costau o'r fath drwy ffïoedd trafodion. Er mwyn pennu eu lefelau prisio, byddent hefyd angen sicrwydd ynglŷn â nifer y trafodion.

Cwestiwn 25
Pa lefel o gostau/incwm y dylai'r Gofrestrfa Tir ei disgwyl mewn perthynas â:
throsglwyddiadau llyfr drwy lyfrau'r Banc Asiant fesul eitem?

Cyfanswm yr ymatebion – 7

Nid atebodd pob ymatebwr y cwestiwn cyfan ac mae manylion eu hymatebion yn gyfrinachol. Fodd bynnag, mynegwyd rhai pwyntiau cyffredinol sydd wedi eu nodi isod.

Nid oedd banciau yn credu bod modd meintioli'r taliadau a godir ar hyn o bryd oherwydd roedd nifer y ffactorau anfesuradwy a natur sylfaenol y ffactorau hynny yn gwneud prisio cywir yn amhosib.

Roedd ymarferyddion o'r farn ei bod yn bwysig bod y taliadau a godir am drosglwyddiadau llyfr yr un fath â'r lefelau cyfredol neu'n is, ac y dylai'r system allu ariannu ei hun heb unrhyw gymhorthdal.

Taliadau allan CHAPS fesul eitem?

Roedd y sylwadau'n debyg i'r rhai a nodir uchod. Ategodd un ymatebwr bod Banc Lloegr yn codi costau ychwanegol ar daliadau CHAPS.

Taliadau allan BACS fesul eitem?

Unwaith eto, roedd y sylwadau'n debyg i'r rhai a wnaed ar drosglwyddiadau llyfr.

Y gyfradd llog a enillir ar weddillion yn y Banc Asiant?

Roedd yr holl sylwadau hyn yn gyfrinachol.

Cyfrifiad ail-godi taliadau/ad-dalu defnyddwyr a thaliad fel y tâl a godir fesul eitem? (Os yw'n well gennych, byddem yn fodlon derbyn prisiau ar gyfer grwpiau o eitemau.)

Roedd sylwadau'n gyfrinachol, ac eithrio awgrym gan un ymatebwr y byddai'n wrth-gystadleuol gwobrwyo'r darparwyr gwasanaeth mwyaf.

Cwestiwn 26
A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar brisiau neu faterion eraill?

Cyfanswm yr ymatebion – 6

Ychydig o ymatebwyr a gynigodd unrhyw sylwadau ar wahân i fodlonrwydd cyffredinol.

Yn ôl un ymatebwr, roedd angen i'r Gofrestrfa Tir ddeall costau datblygu cyn ymrwymo i unrhyw fodel prisiau os oedd yn bwriadu i gostau datblygu gael eu talu gan faint yr elw ar brisiau/llog.

Cwestiynau i ymarferyddion

Cwestiwn 27
A yw'r dull o ddirymu a amlinellir yn y ddogfen yn ymddangos yn briodol?

Cyfanswm yr ymatebion – 149

O'r 189 o ymatebwyr, ni fynegodd 40 ohonynt unrhyw farn ar y cwestiwn hwn. O'r gweddill, roedd 76 y cant yn cymeradwyo'r dull o ddirymu a amlinellir yn y ddogfen. Rhaid dehongli'r ymatebion i'r cwestiwn nesaf ar sail yr ystadegau hyn.

Cwestiwn 28
A oes gennych unrhyw awgrymiadau ychwanegol?

Cyfanswm yr ymatebion – 83

Roedd llawer o ymatebwyr yn credu bod angen bwlch rhwng diwedd y cyfnod dirymu a chwblhau er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw newidiadau/problemau munud olaf. Roeddynt yn awgrymu, er enghraifft, lle bo'r Banc Asiant yn derbyn yr arian cwblhau erbyn canol dydd y diwrnod cyn cwblhau, y gallai'r cyfnod dirymu orffen am 5.30pm y diwrnod hwnnw, gyda chwblhau'n digwydd am 9.30am drannoeth (neu'n hwyrach fel y cytunir gan y partïon). Byddai hyn yn rhoi sicrwydd i brynwyr ac yn eu galluogi i drefnu i symud allan am 9.30am diwrnod y cwblhau. Hefyd, pe bai dirymiad yn digwydd cyn 5.30pm y diwrnod cyn cwblhau, byddai amser gan y partïon i unioni'r broblem cyn cwblhau am 9.30am drannoeth.

Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y dylid cael protocol llym ar y defnydd o ddirymu i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio at y dibenion cywir. Dylai'r protocol nodi'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer dirymu. Dylid cael cosbau ar gyfer dirymu amhriodol a dylai'r rheini fod yn gymesur â'r problemau a'r niwed y mae'n ei achosi i'r gadwyn.

Mae atebolrwydd yn broblem i lawer o ymatebwyr. Dywedodd un fod yn rhaid i'r Gofrestrfa Tir ystyried rhwymedigaethau amodol aelodau'r gadwyn os ydynt yn penderfynu caniatáu dirymiad. Nid oedd trosglwyddiadau tramor wedi eu cynnwys ac roedd yn ymddangos bod y Gofrestrfa Tir yn gweithio ar sail trosglwyddiadau net ac yn gadael cyfreithwyr i drosglwyddo'n annibynnol gweddill yr arian nad

oes ei angen i gwblhau, er enghraifft pan fo defnyddiwr yn symud i lawr y farchnad. Pe na byddai'r arian yn cyrraedd a bod y trafodiad yn cael ei gwblhau, pa iawndal fyddai ar gael i'r cwsmer?

Gofynnodd nifer o ymatebwyr beth fyddai'n digwydd mewn achos o fethiant i wacáu ac awgrymwyd nad yw'r gwasanaeth arfaethedig mor hyblyg â'r system gyfredol. Gofynnodd un ymatebwr sut byddai'r gwasanaeth canolog yn gwybod bod rhag-amodau wedi eu bodloni.

Y farn eang oedd bod yn rhaid cael dull cymeradwy o hysbysu'r holl bartïon mewn cadwyn os oes dirymiad. Gofynnodd nifer o ymatebwyr beth fyddai'r dull hwn.

Soniodd un ymatebwr am y posibilrwydd o weithredu diwydiannol gan staff y Gofrestrfa Tir neu'r Banc Asiant, neu broblemau TG tebyg i'r rhai a gafwyd yn yr Asiantaeth Cynnal Plant, a gofynnodd beth fyddai canlyniadau hyn.

Roedd pob ymatebwr yn cytuno bod angen dealltwriaeth glir o'r amgylchiadau lle byddai dirymiad yn cael ei ganiatáu. Nododd un ymatebwr na allai cyfreithiwr wrthod cydymffurfio â chyfarwyddiadau cleient er enghraifft, trwy ddweud wrtho fod yn rhaid iddo gwblhau hyd yn oed os nad yw am wneud hynny.

Cwestiwn 29
A yw'r awgrym o gael dull o ychwanegu arian yn ymddangos yn ymarferol?

Cyfanswm yr ymatebion – 170. Cafwyd sylwadau gan 80.

Mae'r paragraffau canlynol yn crynhoi'r prif bwyntiau a fynegwyd yn yr ymatebion.

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn adlewyrchu'r ymatebion i gwestiynau 7 ac 8 i raddau helaeth. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn na fyddai cadwyni cymysg yn gweithio o gwbl, neu y byddent yn gweithio i ryw raddau, ond ni fyddent yn welliant ar y system gyfredol (a gallent hyd yn oed fod yn waeth). O'r rhai a gredai fod cadwyni cymysg yn ddichonadwy, roedd bron pob un ohonynt yn credu y dylai'r rhai nad ydynt yn defnyddio e-drawsgludo agor cyfrifon yn y Banc Asiant: heb drosglwyddiadau llyfr, byddai'r gwasanaeth EFT yr un mor ddarostyngedig i oedi a thaliadau hwyr â'r system bresennol.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai cwmnïau defnyddwyr bennu amodau contract yn mynnu bod arian cwblhau yn cael ei dalu drwy EFT. Gallai gofyniad o'r fath olygu bod angen diwygio'r Amodau Contract Safonol.

Roedd atebolrwydd yn broblem unwaith eto. Roedd un ymatebwr yn rhagweld risg na fyddai taliadau wedi eu cysylltu'n gywir, er

enghraifft, oherwydd bod cyfeirnod wedi ei gofnodi'n anghywir a gofynnodd a fyddai'r Gwasanaeth Canolog yn atebol pan na fyddai'r gadwyn gyfan yn gallu cwblhau o ganlyniad i hynny.

Roedd ymarferyddion â diffyg gallu electronig a thrawsgludwyr amatur yn cael eu hystyried fel problemau posib a allai fod yn fwy difrifol mewn cadwyni cymysg nag mewn trafodion sy'n cael eu prosesu drwy EFT yn llwyr.

Cwestiwn 30
Yn arbennig, a ddylai prynwyr nad ydynt yn defnyddio EFT gadw cyfrif gyda'r Banc Asiant, fel y gellir gwneud trosglwyddiadau llyfr?

Cyfanswm yr ymatebion – 169. Cafwyd sylwadau gan 70.

Unwaith eto, roedd sylwadau'n cadarnhau'r farn roedd ymatebwyr eisoes wedi ei mynegi wrth ymateb i gwestiynau blaenorol. Roedd y materion a gafodd eu crybwyll yn cynnwys gorfodaeth, gyda'r rhan fwyaf o'i phlaid ond lleiafrif sylweddol yn ei gwrthwynebu'n frwd. Nodwyd problemau o ran cost a'r gallu i orfodi fel rhesymau yn erbyn gorfodaeth. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn ystyried gorfodaeth yn rhywbeth hanfodol annheg. Gofynnwyd pam y dylid gorfodi cwmnïau i ddefnyddio EFT neu agor cyfrifon yn y Banc Asiant, gan arwain at ragor o waith gweinyddol a chost.

Yn ôl y rhan fwyaf o ymatebwyr, y sefyllfa ddelfrydol fyddai un lle mae pob parti yn defnyddio EFT. Dywedodd rhai y byddai'n well gan y cyhoedd gyflogi trawsgludwyr sy'n defnyddio EFT yn hytrach na mentro rhoi cyfarwyddiadau i rai nad ydynt yn ei ddefnyddio. Awgrymwyd y dylid gorfodi'r rhai nad ydynt yn defnyddio'r system i gadw cyfrifon yn y Banc Asiant er mwyn osgoi oedi wrth gwblhau.

Dywedodd eraill y gallai'r cyfrif gyda'r Banc Asiant gael ei gynnal gan gyfreithiwr fel rhan o'i gyfrif cleient, neu fel cyfrif unigol a drefnir gan y cyfreithiwr ar ran y prynwr. Efallai y bydd y rhai nad ydynt yn defnyddio'r gwasanaeth EFT llawn am ei ddefnyddio i'r graddau y mae'n cyfrifo'r taliad net mewn unrhyw achos, hyd yn oed os nad oedd ganddo'r dulliau ysgogi electronig. Felly, gallai prynwr gadw cyfrif gyda'r Banc Asiant, ond ni fyddai'n cael ei orfodi i wneud hynny.

Cwestiwn 31
A yw'r dull parthed amseroedd cwblhau targed yn rhesymol?

Cyfanswm yr ymatebion – 170. Cafwyd sylwadau gan 71.

Roedd 66 y cant o'r ymatebwyr yn credu bod y dull yn rhesymol. Roedd 15 y cant yn anghytuno ac ni chafwyd barn gan y gweddill.

Dyma'r prif faterion a gafodd eu crybwyll gan y rhai a oedd yn anghytuno â'r dull.

Anhyblygrwydd
Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn fod y system yn rhagdybio byd delfrydol lle'r oedd pob parti yn gweithredu'n effeithiol, yn rhesymol, yn foesol ac yn unol â'r confensiynau sy'n cael eu derbyn yn gyffredinol: nid oedd yn ystyried y ffactor dynol, hynny yw, natur anrhagweladwy anorfod ymddygiad pobl, ac na fyddai'n ddigon hyblyg i ymdopi â phroblemau sy'n codi'n aml, er enghraifft, dirymiadau, yn enwedig y rhai sy'n digwydd ar y funud olaf; materion sy'n codi ynglŷn â gwiriadau KYC; cyfnewid a chwblhau'n digwydd ar yr un pryd; meddiant nad yw'n wag; sefyllfaoedd lle mae angen cysylltu â chleientiaid neu ymarferyddion ond nad oes modd cael gafael arnynt; neu gamgymeriadau.

Amseroedd cwblhau poblogaidd
Yn ôl llawer o ymatebwyr, mae'r mwyafrif llethol o brynwyr tai am symud yn gynnar brynhawn dydd Gwener fel bod ganddynt amser i bacio'u heiddo a glanhau'r tŷ ar gyfer y bobl newydd a digon o amser i symud eu hunain hefyd. Sut bydd y Banc Asiant (neu'r Gwasanaeth Canolog) yn ymdopi â nifer y trafodion ar yr adegau prysuraf? Hefyd, mewn cadwyn hir, a fydd hi'n bosib cael pob parti i gytuno ar amser cwblhau?

Cadwyni cymysg
Hyd yn oed os yw EFT yn gweithio ble mae pob parti yn defnyddio e-drawsgludo ac yn rhagariannu, nid yw'n eglur sut y bydd yn gweithio mewn cadwyn gymysg, o ystyried yr oedi sy'n gysylltiedig â throsglwyddiadau llyfr â llaw.

Arian sy'n weddill
Roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad oedd arian sy'n weddill wedi ei ystyried yn briodol a gofynnwyd a fyddai'n rhaid i arian o'r fath gael ei drosglwyddo rhwng ymarferyddion y tu allan i'r system EFT.

Cyfnod prawf
Gofynnodd un ymatebwr a fyddai'r system yn cael ei rhoi ar brawf ac, os felly, pryd. Gofynnodd hefyd sut byddai'r cyfranogwyr yn cael eu dewis a dywedodd y dylid cynnwys cwmnïau o bob math.

Atebolrwydd
Gofynnodd un ymatebwr pwy fyddai'n atebol mewn achosion lle'r oedd y Banc Asiant neu'r Gwasanaeth Canolog ryw ffordd neu'i gilydd wedi rhwystro cwblhau rhag digwydd ar yr amser penodedig. Yn arbennig, pwy fyddai'n digolledu partïon am eu colledion o ganlyniad i oedi?

Cwestiwn 32
A yw'n ddichonadwy i ddefnyddio EFT dim ond pan fo'r gadwyn gyfan yn cytuno i hynny?

Cyfanswm yr ymatebion – 172. Cafwyd sylwadau gan 65.

Atebodd 68 y cant 'ydy', 17 y cant 'nac ydy', a ni chafwyd barn gan y gweddill.

Roedd ymatebwyr wedi eu rhannu bron yn gyfartal rhwng y rhai a oedd o'r farn y dylid gwneud EFT yn orfodol a'r rhai a oedd yn credu y dylai fod yn ddewisol. Fodd bynnag, yn ôl llawer o'r rhai yn y garfan olaf, er y dylai bawb fod â'r hawl i ddewis a ydynt yn mabwysiadu'r system ai peidio fel mater o egwyddor, ni fyddai'r system yn gweithio oni bai bod pob parti mewn cadwyn yn defnyddio'r gwasanaeth EFT.

Er syndod, roedd hyd yn oed rhai o'r ymatebwyr a oedd o blaid gorfodaeth yn disgwyl i'r system fod yn lletchwith ac yn aneffeithlon.

Credai rhai ymatebwyr y dylai fod modd i'r rhai nad ydynt yn defnyddio e-drawsgludo gyflwyno arian mewn cadwyn sy'n cael ei galluogi'n electronig trwy agor cyfrifon yn y Banc Asiant. Fodd bynnag, roeddynt yn cydnabod na fyddai hyn cystal o'r hanner â chymryd rhan yn llawn mewn EFT. Roeddynt hefyd yn cydnabod, er bod cyfradd fabwysiadu uchel yn ddymunol, y gallai caniatáu i'r rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr gymryd rhan mewn EFT weithio yn erbyn cyfradd uchel drwy (a) ganiatáu iddynt wireddu manteision EFT heb fabwysiadu'r gwasanaeth yn llawn a/neu (b) leihau effeithiolrwydd y gwasanaeth ac felly ei atyniad.

Dywedodd nifer o ymatebwyr y byddai'n rhaid bod y gwasanaeth EFT yn gallu cynnwys y rhai nad ydynt yn ei ddefnyddio: yn y camau cynnar o leiaf, mae'n ffaith y byddai pobl nad ydynt yn ei ddefnyddio, waeth pa mor anghyfleus yw hyn, ac ni ellir eu hanwybyddu

Cwestiwn 33
A fyddai'n ddymunol gwneud EFT yn orfodol mewn cadwyni preswyl?

Cyfanswm yr ymatebion – 171. Cafwyd sylwadau gan 86.

I ryw raddau, gellir dyfalu'r ymatebion i'r cwestiwn hwn ar sail y rhai i Gwestiwn 32. Roedd 53 y cant o'r farn y dylid gwneud EFT yn orfodol mewn cadwyni preswyl, roedd 37 yn anghytuno, ac ni chafwyd barn gan y gweddill.

Mae'n amlwg bod gan bobl deimladau cryf a barn gadarn ar y pwnc hwn, yn enwedig y rhai sy'n gwrthwynebu gorfodaeth mewn egwyddor, ac o'r farn ei fod yn gam yn erbyn hawliau sifil. Roedd

eraill yn nodi rhesymau mwy ymarferol dros eu gwrthwynebiad, er enghraifft, byddai gorfodaeth yn gwahaniaethu yn erbyn trawsgludwyr amatur; byddai angen systemau amgen pe bai'r system yn methu; gallai EFT fod yn ddrutach i brynwyr a gwerthwyr; ac annoeth fyddai cyflwyno gorfodaeth cyn bod y system wedi ei rhoi ar waith a phrofi'i hun yn system effeithiol a dibynadwy.

Roedd yr ymatebwyr a oedd o blaid gorfodaeth wedi eu rhannu'n ddwy garfan. Yn ôl y garfan gyntaf, a'r fwyaf, roedd gorfodaeth yn annymunol ond yn anochel, ac roeddynt yn derbyn hynny'n anfoddog. Roedd yr ail garfan yn ystyried gorfodaeth yn hanfodol i lwyddiant EFT ac yn ystyried y llwyddiant hwnnw'n hynod ddymunol. Ychydig iawn, os o gwbl, o ymatebwyr a eisteddodd ar y ffens.

Cwestiwn 34
Beth yw eich ymatebion penodol i'r cynigion mewn perthynas â gofynion trawsgludo masnachol?

Cyfanswm yr ymatebion – 103

Credai'r rhan fwyaf o ymatebwyr na fyddai EFT yn briodol i drafodion masnachol oherwydd nad oes cadwyni mewn trafodion o'r fath, ond maent yn aml yn cynnwys trefniadau cymhleth, gyda'r cymhlethdod yn cael ei adlewyrchu yn y taliadau. Ymhellach, fel y cydnabyddir yn y ddogfen, gallai trafodion masnachol gyflwyno nifer o ofynion, megis darparu gwasanaeth y tu allan i oriau gwaith arferol, neu'r gallu i setlo mewn arian o wledydd gwahanol, a fyddai, o'u mabwysiadu, yn ychwanegu'n sylweddol at y gofynion ar y Gwasanaeth Canolog a'r Banc Asiant; ac roedd llawer o ymatebwyr o'r farn fod yr un ffaith hon yn ddigon o reswm i beidio ag ymestyn EFT i drafodion masnachol – neu, o leiaf, ddim ar unwaith.

Cwestiwn 35
A oes unrhyw ofynion pellach ar gyfer oriau gwaith estynedig?

Cyfanswm yr ymatebion – 103

Roedd ymatebwyr bron yn unfryd ynglŷn â gwrthod unrhyw gynnig a oedd yn golygu ymestyn oriau gwaith ymarferyddion, yn enwedig os oedd hynny'n cynnwys gweithio ar benwythnosau. Roedd rhai'n credu na fyddai incwm ffïoedd yn ddigon i dalu'r gost ychwanegol. Dywedodd eraill y byddai'r cynnig yn rhoi mantais annheg i gwmnïau trawsgludo mawr ac yn cyflymu dirywiad cwmnïau llai neu ymarferyddion unigol.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai'n rhaid cael trefniadau gweithio 24/7 ar gyfer trafodion masnachol, rheswm arall posib dros eu heithrio o EFT.

Dywedodd llawer o ymatebwyr na fyddai'n ymarferol ymestyn yr oriau y byddai'r gwasanaeth EFT ar gael heb ymestyn oriau gwaith ymarferyddion – sut gallai cleientiaid ddirymu taliadau ar y funud olaf, er enghraifft, os nad oedd eu trawsgludwyr ar gael?

Mae angen ystyried goblygiadau'r gyfarwyddeb amser gweithio, a hefyd y cwestiwn a allai trafodion bancio y tu allan i oriau bancio arferol hwyluso twyll gan y byddai mwy o amser yn mynd heibio cyn i'r drosedd gael ei chanfod, gan roi cyfle i'r troseddwyr ddiflannu.

Cwestiwn 36
A yw'r strwythur cyfrifon a gyflwynir ym Mhennod 7 yn rhesymol?

Cyfanswm yr ymatebion – 165. Cafwyd sylwadau gan 73.

Atebodd 62 y cant 'ydy', 11 y cant 'nac ydy' ac nid oedd barn gan y gweddill.

Er gwaethaf y mwyafrif mawr a gredai fod y strwythur cyfrifon yn rhesymol, roedd llawer yn mynegi amheuon, rhai ohonynt yn gyfystyr â chafeatau sylweddol. Yn wir, dim ond gan un o'r 73 o ymatebwyr a roddodd sylwadau ar y cynnig y cafwyd cymeradwyaeth ddiamod. Dyma'r prif faterion.

Cyfrifon sengl neu luosog
Roedd y rhan fwyaf yn ffafrio cyfrif sengl ond dywedodd eraill fod yn rhaid i'r strwythur gydymffurfio â rheolau Cymdeithas y Cyfreithwyr, a phwysleisiwyd pa mor anodd yw olrhain ffynhonnell arian mewn trefniad o'r fath.

Cymhlethdod
Roedd llawer yn pryderu bod y cynnig yn ymddangos yn gymhleth ac roeddynt o'r farn y gallai hyn danseilio'i debygolrwydd o lwyddo trwy gynyddu'r tebygolrwydd o gamgymeriadau. Roeddynt yn gofyn sut byddai llwybrau archwilio yn cael eu darparu, sut gellid dychwelyd arian i'r partïon priodol yn achos dirymiad, a sut byddai cyfeirnodau unigryw ar gyfer cadwyni yn gweithio, yn enwedig lle byddai cadwyni hir a chymhleth yn torri neu'n uno.

Dibyniaeth ar sefydliadau allanol
Roedd rhai ymatebwyr o'r farn fod y cynnig yn rhagdybio bod sefydliadau ariannol yn gweithredu'n effeithlon, er bod gwallau mewn cyfriflenni, diffyg mewn arian adbrynu, a bod yn hwyr yn gyffredinol yn gyffredin yn hytrach nag yn eithriadau. Roeddynt yn amau a allai'r Banc Asiant ymdopi â nifer y taliadau ar yr adegau prysuraf, ac a fyddai'r Gwasanaeth Canolog yn gallu ymdopi â rheoli cadwyni a chyfrifo symiau bach o log sy'n daladwy i'r partïon amrywiol. Yn ogystal, rhybuddiodd nifer o ymatebwyr na ddylai'r gwasanaeth

ddibynnu ar y ffaith fod taliadau treth tir toll stamp yn cael eu derbyn yn brydlon gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Cwestiwn 37
A oes unrhyw drafodion neu grwpiau o drafodion na allai'r system EFT arfaethedig ymdopi â nhw efallai? Os felly, rhowch enghreifftiau.

Cyfanswm yr ymatebion – 162. Cafwyd sylwadau gan 72.

- Roedd ymatebwyr wedi eu rhannu'n gyfartal ar y cwestiwn hwn. Roedd y rhai a gredai y byddai rhai trafodion y tu hwnt i gwmpas EFT neu y dylent fod y tu hwnt iddo wedi dangos cryn ddychymyg wrth feddwl am enghreifftiau, gan gynnwys:
- morgeisi gwrthbwyso gyda chyfraddau llog dyddiol fel ffigurau adbrynu a datganiadau cwblhau cywir y diwrnod cynt gan gynnwys darparu arian
- setliadau ysgaru lle bo taliadau anghyfartal yn daladwy i'r partïon ac mae partïon yn newid eu meddyliau, yn enwedig lle mae un yn teimlo ei fod wedi cael cam yng ngorchymyn y llys ysgaru ac yn penderfynu peidio â thalu swm penodol
- trafodion nad ydynt mewn cadwyn, oherwydd bod gwerthwyr am gasglu eu harian ar y diwrnod cwblhau ac y byddant yn cwyno os oes unrhyw oedi cyn iddynt gael eu rhan
- trafodion 'hawl i brynu' gyda'r Cyngor Tai neu'r Wladwriaeth fel y gwerthwr
- trafodion preswyl a masnachol cymysg sydd wedi eu cysylltu mewn un gadwyn (er enghraifft, perchennog siop sy'n byw yn adeilad y siop yn gwerthu ac yn prynu tŷ)
- trafodion 'ddim ar werth'
- trafodion lle cymerir morgais ar un eiddo er mwyn prynu eiddo arall
- trawsgludo masnachol, ail-forgeisi, rhyddhau ecwiti a gwerthiannau arwerthiant
- cwblhau a thrafodion munud olaf neu sy'n digwydd ar yr un pryd lle mae'r arian yn cael ei gadw yn ôl y gofyn neu lle mae angen gwneud ymchwiliadau terfynol ar y diwrnod cwblhau
- lesddaliadau preswyl lle mae angen ystyried rhent tir a dosraniadau tâl cynnal a chadw – mae'r ffigurau ar gyfer rhent a dosraniadau tâl cynnal a chadw yn newid o ddydd i ddydd, a gallai hyn achosi problemau yn enwedig os yw'r dyddiad cwblhau yn newid
- arian tramor
- cyfreithwyr nad ydynt yn gwneud llawer o drawsgludo
- trafodion unigol, cyfnewid, trosglwyddo ecwiti – lle mae EFT yn ddiangen yn hytrach nag anymarferol
- trafodion 'cefn-gefn' a chyfnewid rhan, er enghraifft, is-werthiannau lle mae rhan o'r arian yn cael ei dalu i bartïon canolog
- prynwyr a gwerthwyr amatur

- prynwyr (neu eu cyfreithwyr) sy'n prynu eiddo digofrestredig ac sydd am weld neu gasglu'r gweithredoedd gyda thaliad yn y modd traddodiadol
- tir digofrestredig
- unrhyw drafodiad lle na ellir creu'r datganiad cwblhau mewn da bryd cyn cwblhau
- trafodion lle mae angen hyblygrwydd neu sy'n cynnwys taliadau nad ydynt yn ymwneud â'r Gofrestrfa Tir neu'r Dreth Tir Toll Stamp
- trafodion beichus (sut gall y Banc Asiant sicrhau prosesu 'ar yr un diwrnod' ar gyfer niferoedd di-ri?)
- trafodion sy'n cynnwys cymdeithasau tai, sydd weithiau'n gwrthod cwblhau tan fod ymchwiliad wedi ei gynnal
- gwerthiannau gan dderbynyddion, lle mae'n bosib y bydd oedi cyn cael cymeradwyaeth ar eu cyfer
- contractau amodol
- achosion lle mae'n rhaid talu tâl fel cosb am adbrynu'n gynnar i roddwr benthyg morgais, oni bai bod morgais newydd yn cael ei gymryd o fewn cyfnod penodol (oherwydd anawsterau gyda chael ffigurau adbrynu nad ydynt yn cynnwys y gosb ariannol mae modd delio â'r rhain ar hyn o bryd trwy dalu'r arian adbrynu heb y gosb – ac anfon cadarnhad ysgrifenedig o'r morgais newydd. Mae dwy adran wahanol yn y rhoddwyr benthyg yn delio â materion o'r fath – hynny yw, adbryniadau a chwblhau)
- achosion lle nad yw rhoddwyr benthyg wedi darparu datganiadau adbrynu
- cadwyni sy'n croesi ffin yr Alban/Lloegr
- unrhyw beth anarferol, neu sydd heb ei wneud cyn hyn. Nid yw'n bosib meddwl am yr holl bosibiliadau cyn y digwyddiad, ond dyma rai enghreifftiau. (1) Mae'r gwerthwyr yn dweud y byddant yn gadael rhai ffitiadau – er enghraifft, cypyrddau gosod, tŷ haf yn yr ardd, cyflenwad tanwydd – ond, pan fo'r prynwr yn cyrraedd, mae'r eitemau hynny wedi mynd ac mae ef am adennill eu gwerth o'r pris prynu tan i'r mater gael ei ddatrys. (2) Mae'r prynwr yn canfod bod y tŷ a'r ardd yn llawn sbwriel ac mae am dynnu'r gost o glirio'r sbwriel oddi ar y pris. (3) Mae'r prynwr yn canfod bod sgwatwyr wedi symud i mewn ac maent yn gwrthod gadael. (4) Mae'r gwerthwr yn berchen ar eiddo cyfagos, yn cael ffrae gyda'r prynwr, ac yn gwrthod cwblhau. (5) Pan fo cyfreithiwr y gwerthwr yn cael datganiad adbrynu terfynol, mae benthyciadau eraill wedi eu cydgrynhoi ar y morgais fel nad oes gan y gwerthwr ddigon o ecwiti i fwrw ymlaen â phwrcas cysylltiedig. (6) Mae'r eiddo wedi llosgi'n ulw dros nos felly mae un o'r partïon yn y trafodiad neu'r ddau yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r trafodiad. Efallai na fydd y Banc Asiant yn dyrannu'r arian yn unol â darpariaethau contract cymhleth mewn perthynas â cholled neu ddifrod cyn gwerthiant a'r polisïau yswiriant amrywiol dan sylw. (7) Amrywiadau eraill – llifogydd yn yr eiddo, eiddo'n cael ei fomio gan derfysgwyr, yn syrthio i lawr clogwyn ac ati. (8) Mae cwch preswyl yn suddo. Er bod y digwyddiadau hyn yn anghyffredin, maent yn gallu digwydd.

Cwestiynau i roddwyr benthyg

Cwestiwn 38
Beth yw eich ymateb i'r gofyniad i ragariannu mewn cadwyn breswyl, yn enwedig os oes rhoddwr benthyg newydd?

Cyfanswm yr ymatebion – 21

Roedd yr ymatebwyr – ddim i gyd yn rhoddwyr benthyg o bell ffordd – yn anghytuno'n chwyrn ar y mater hwn, gyda rhai yn ei wrthwynebu'n frwd, ac eraill yn ei ystyried yn hanfodol.

Gofynnodd dau ymatebwr a fyddai ymarferyddion yn cadw'r llog a enillir ar eu cyfrifon cleientiaid, a phwysleisiwyd bod hyn yn ffrwd incwm sefydledig a hanfodol i'w busnesau. Pe bai'r arfer hwn yn gorffen, roeddynt yn honni y byddai pob trawsgludwr yn trosglwyddo'r gost i'r cyhoedd neu byddai llawer o swyddi'n cael eu colli a byddai safonau'n gostwng (gweler Cwestiwn 6 hefyd). Yn ogystal, gallai'r drefn o gael y Gofrestrfa Tir yn credydu llog gymhlethu prosesau rhoddwyr benthyg ac nid yw'n adlewyrchu eu hymarfer cyfredol.

Roedd rhai ymatebwyr yn rhagweld anawsterau o ran neilltuo arian i gadwyn neu brynwr penodol. Roedd eraill, am y rheswm hwn neu resymau eraill, yn credu y dylid treialu EFT yn y system gyfredol cyn ei ymgorffori yn e-drawsgludo (er ei bod yn ymddangos bod yr awgrym hwn yn seiliedig ar y camddealltwriaeth bod modd gwahanu EFT oddi wrth y gadwyn matrics).

Dywedodd un ymatebwr mai problemau cleientiaid/cyfreithwyr, gyda chlirio/trosglwyddo arian o ffynonellau sydd weithiau y tu allan i'r DU oedd prif achosion oedi mewn cadwyni. Roedd yn amau a fyddai'r gwasanaeth arfaethedig yn lliniaru'r rhain.

Yn ôl ymatebwr arall, mae'n rhaid i roddwr benthyg dderbyn Tystysgrif o Deitl (hynny yw, sicrwydd bod teitl i'r eiddo yn dda ac yn werthadwy ac y gellir ei dderbyn fel sicrwydd ar gyfer blaenswm y morgais) gan gynghorydd cyfreithiol y rhoddwr benthyg cyn y bydd yn rhyddhau arian. Mae'n sicr y bydd rhai achlysuron lle nad yw'r Dystysgrif o Deitl yn cael ei derbyn tan y diwrnod cwblhau ac felly bydd yn amhosib rhagariannu. Mae amrywiaeth o resymau eraill pam na ellir rhyddhau arian tan y diwrnod cwblhau ac mae'n anodd gweld sut bydd system sy'n dibynnu ar ragariannu yn ymdopi ag achosion o'r fath.

Cwestiwn 39
A oes rôl i EFT mewn prosesu ail-forgeisi yn eich barn chi?

Cyfanswm yr ymatebion – 123. Cafwyd sylwadau gan 11.

Yn ôl un ymatebwr, a oedd yn drawsgludwr, roedd cadw'r llog a enillir ar arian cyfrifon cleientiaid yn fater hanfodol fan hyn. Pe na byddai trawsgludwyr yn gallu defnyddio'r llog hwnnw i barhau i fod yn gystadleuol, byddai rhoddwyr benthyg yn cyflogi mwy a mwy o weithwyr mewn gwledydd fel India a Malaysia, a byddai trawsgludwyr yng Nghymru a Lloegr yn colli eu bywoliaeth. Roedd llog banc yn annatod i wneud y gwaith yn hyfyw ar gyfer trawsgludwyr mawr a bach fel ei gilydd.

Dywedodd un ymatebwr arall, heb eithrio'r posibilrwydd y byddai rôl i EFT, y byddai'n rhaid i roddwyr benthyg ddewis rhwng rhyngweithio'n uniongyrchol â'r Gwasanaeth Canolog neu barhau i anfon yr arian at eu cynrychiolydd cyfreithiol, a fyddai wedyn yn defnyddio EFT (mae hyn yn wir yn achos ail-forgeisi a phwrcasau). Os byddent yn dewis parhau â'r drefn gyfredol, ychydig iawn o effaith y byddai EFT yn ei chael ar fusnes ail-forgeisi.

Awgrymodd trydydd ymatebwr mai dim ond y balans/gwahanrediad net y dylid ei ragariannu mewn achosion lle'r oedd cymerwr benthyg yn talu morgais ar un eiddo ac yn cymryd morgais newydd gyda'r un rhoddwr benthyg ar eiddo arall ar yr un pryd. Ychwanegodd mai'n anaml iawn yr oedd ail-forgeisi yn rhan o gadwyn.

Roedd un ymatebwr yn amau a ellid defnyddio EFT mewn achosion lle'r oedd trosglwyddiadau mewn trafodion priodasol dan orchymyn caniatâd yn gysylltiedig â'r ail-forgais.

Nid oedd rhai ymatebwyr yn gweld unrhyw fantais o ddefnyddio EFT ar gyfer ail-forgeisi.

Yn ôl un rhoddwr benthyg, er y byddai e-drawsgludo yn gwaredu'r bwlch rhwng cwblhau a chofrestru, byddai'r gwasanaeth yn debygol o gynyddu costau ac nid oedd yn eglur sut byddai ail-forgeisi yn rhan o system sydd wedi ei chynllunio ar gyfer cadwyni. Mae ail-forgeisi yn rhan sylweddol o fusnes rhoddwyr benthyg, ac ychydig iawn o roddwyr benthyg fyddai'n barod i weithredu prosesau deuol i ymdrin ag ail-forgeisi a phwrcasau.

Cwestiwn 40
A fyddai gennych ddiddordeb mewn archwilio dull tebyg i'r PPS os byddai'n eich galluogi i dalu o fewn EFT ar y diwrnod cwblhau, yn hytrach na'r diwrnod cynt?

Cyfanswm yr ymatebion – 123. Cafwyd sylwadau gan 6.

Dywedodd pedwar ymatebwr fod angen mwy o fanylion arnynt cyn ffurfio barn ond efallai y byddai ganddynt ddiddordeb mewn egwyddor, oherwydd bod achosion lle'r oedd hi'n anymarferol cyfnewid contractau cyn cwblhau.

Roedd un ymatebwr yn credu bod rhagariannu yn werth chweil oherwydd ffaeledigrwydd banciau a'r gost uchel o aildrefnu symud.

Yn ôl ymatebwr arall, roedd y weithdrefn yn gymhleth ac yn ddrud ac ni allai rhoddwr benthyg weithredu fel banc PPS ei hun. Roedd rhoddwyr benthyg yn codi llog o'r dyddiad roedd yr arian yn cael ei ryddhau felly ni fyddai un o fanteision ariannu ar yr un dydd â chwblhau yn berthnasol.

Cwestiwn 41
A fyddai angen eich rhyngwyneb eich hun gydag e-drawsgludo arnoch, er enghraifft i roi arian yn y Banc Asiant drwy EFT, neu i weld manylion cyfrifon?

Cyfanswm yr ymatebion – 123. Cafwyd sylwadau gan 9.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o'r farn y byddai angen rhyw fath o ryngwyneb ond, yn achos rhoddwyr benthyg, roedd yr ateb yn dibynnu ar ffactorau eraill, megis a fyddent yn parhau i ryddhau arian i'w cynrychiolwyr cyfreithiol ai peidio neu ba elfennau eraill a oedd yn gysylltiedig â'r trosglwyddo arian, er enghraifft, PISCES, rhyddhadau electronig.

Dywedodd un ymatebwr y byddai'n rhaid i roddwyr benthyg ddatblygu systemau i anfon arian i'r system EFT a byddai angen iddynt weld manylion cyfrifon hefyd. Byddai'r systemau sydd eu hangen i gynnal EFT o safbwynt y rhoddwyr benthyg yn dra chymhleth a byddent yn golygu newidiadau helaeth i'w seilwaith TG. Byddai'n rhaid cael achos busnes cadarn, gan gynnwys dadansoddiad o gost/budd, i gefnogi newidiadau o'r fath. Mae bron yn sicr y byddai'n rhaid trosglwyddo rhai o'r costau i'r cwsmer.

Cwestiwn 42
A fyddai angen is-gyfrifon eich hun arnoch yn y Banc Asiant?

Cyfanswm yr ymatebion – 123. Cafwyd sylwadau gan 7.

Roedd ymatebwyr yn anghytuno ynglŷn â'r cwestiwn hwn, gyda rhai o'r farn y byddai angen is-gyfrifon ar gyfer cleientiaid gwahanol; eraill yn credu na fyddai angen is-gyfrifon yn ôl pob tebyg; a'r gweddill yn cadw meddwl agored.

Nododd rhai ymatebwyr y byddai'n rhaid ystyried goblygiadau rheolau cyfrifon cyfreithwyr.

Awgrymodd un ymarferydd y byddai cynnal is-gyfrifon yn cynyddu costau, a chan fod y rhan fwyaf o gyfreithwyr yn buddsoddi llawer o arian ac amser mewn gofalu am gyfrifon adnau cleientiaid yn eu banciau eu hunain yn sgil y rheolau cyfrifyddu cyfreithwyr sy'n

ymwneud â pherchenogaeth llog ar arian cleientiaid, dywedodd na fyddent yn awyddus i ysgwyddo baich ychwanegol.

Dywedodd ymarferydd arall fod angen manylion pellach ar sut byddai'r gweithdrefnau arfaethedig yn gweithio'n ymarferol. Tan fod y manylion hyn ar gael, dylid agor cyfrifon yn enw'r trawsgludwr sydd wedi ei benodi i weithredu ar ran y rhoddwr benthyg.

Cwestiwn 43
A fyddech eisiau'r gallu i ddirymu trafodiad – a chadwyn gyfan o bosib?

Cyfanswm yr ymatebion – 123. Cafwyd sylwadau gan 11.

Roedd yr ymatebion yn dangos amrywiaeth barn annisgwyl, gyda rhai o'r farn y dylid derbyn y risg adeg cyfnewid, tra bod eraill yn dweud bod y gallu i ddirymu trafodiad, hyn yn oed yn hwyr iawn, yn angenrheidiol, am resymau fel:
dogfennau heb eu cyflawni'n gywir, meddiant gwag heb ei roi, neu amodau eraill heb eu bodloni
mae'r cleient yn marw neu'n cael damwain ddifrifol oriau cyn cwblhau – os oedd y trafodiad yn cynnwys morgais, ni allai'r pwrcas fynd rhagddo
canfod bod y cartref wedi ei ddifetha neu ei fod ym meddiant sgwatwyr ar y diwrnod cwblhau ac mae'r cleient am rwystro trosglwyddiad arian
amheuon o dwyll neu wyngalchu arian.

Dywedodd un ymatebwr y gallai dirymiad hwyr beryglu cadwyn gyfan o drafodion ac, os oedd angen newid y dyddiad cwblhau, byddai angen ffigurau adbrynu morgais newydd.

Cwestiwn 44
Mae trafodion masnachol yn aml yn gymhleth a gallai hyn gael ei adlewyrchu yn y taliadau. A ydych yn gweld rôl i EFT yn y gwaith o hwyluso trafodion o'r fath? Os felly, pa ofynion arbennig fydd eu hangen ar gyfer hyn?

Cyfanswm yr ymatebion – 123. Cafwyd sylwadau gan 8.

Roedd 7 y cant o ymatebwyr yn credu y gallai EFT hwyluso trafodion masnachol. Roedd naw y cant o'r farn nad oedd rôl i EFT mewn trafodion o'r fath ac roedd y 84 y cant arall yn amharod i roi barn.

Roedd yr awgrymiadau ar gyfer gofynion ychwanegol yn cynnwys dull ymateb cyflym ar gyfer dygymod ag amgylchiadau newydd, a'r gallu i ddosbarthu taliadau a derbyniadau'n gywir i gategorïau, er enghraifft, dargadw, ysgrow.

Cwestiwn 45
Os yw'r cyfrif morgais wedi ei gysylltu â chyfrif cerdyn credyd/debyd y cleient, efallai na fydd modd gwybod y swm sydd ei angen i'w setlo o flaen llaw oherwydd (a) efallai y bydd angen cyfrifo'r llog a godwyd ar y fantolen sy'n daladwy; a (b) efallai fod y cleient wedi gwario mwy o arian o'r cyfrif. A fydd hyn yn achosi unrhyw broblemau yn eich barn chi? Os felly, sut gellid eu datrys yn eich barn chi?

Cyfanswm yr ymatebion – 123. Cafwyd sylwadau gan 25.

Roedd 18 y cant yn credu y byddai morgeisi gwrthbwyso yn achosi problemau. Dim ond dau y cant oedd yn anghytuno, a ni fynegodd 80 y cant unrhyw farn.

Credai nifer o ymatebwyr y dylid rhewi'r cyfrif morgais cyfan neu'r rhan newidiol o'r benthyciad ar y dyddiad cyfnewid. Awgrymodd eraill y dylai rhoddwyr benthyg ymrwymo i ffigur adbrynu cyn cwblhau, gan wneud unrhyw anghysondebau yn fater rhyngddyn nhw a'r cymerwr benthyg os oes angen, (hynny yw, heb effeithio ar symiau gwarantedig).

Nododd un ymatebwr nad yw'r broblem hon wedi ei chyfyngu i forgeisi gwrthbwyso: roedd cyfyngau eraill lle gallai fod angen ail-gyfrifo'r taliad adbrynu neu swm y benthyciad am amryw resymau.

Dywedodd rhai ymatebwyr y dylid gwneud darpariaeth ar gyfer credydu arian i, a throsglwyddo arian o, gyfrif y defnyddiwr yn y Banc Asiant ar y diwrnod cwblhau. Fodd bynnag, byddai hyn yn mynd yn groes i ragariannu, sy'n rhan annatod o'r cynnig EFT.

Awgrymodd un ymatebwr y dylid darparu ffigur adbrynu dros dro, gan ddatgan yr uchafswm y gallai'r cwsmer ei fenthyca, waeth faint a oedd yn ddyledus mewn gwirionedd. Byddai'n rhaid i'r cwsmer ysgwyddo'r taliad mwy hyn tan i ad-daliad gael ei awdurdodi.

Dyma rai cynigion mwy radical:
y dylai bod modd trosglwyddo morgeisi o un eiddo i'r llall – felly, dan yr amgylchiadau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd, byddai'r morgais gwrthbwyso yn cael ei drosglwyddo i eiddo newydd y cwsmer yn hytrach na'i adbrynu, neu
y dylai rhoddwyr benthyg greu dull safonol o newid y cyfrif i fod yr un fath ag un cerdyn credyd arferol er mwyn caniatáu ar gyfer gorwario.

Cwestiwn 46
Rhowch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych ar y gwasanaeth EFT a gynigir yn y ddogfen drafod.

Cyfanswm yr ymatebion – 46.

Roedd llawer o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn wrthwynebus ac wedi eu mynegi'n ddi-flewyn ar dafod. Er bod hyn yn dangos cryfder teimladau pobl yn ddiau, mae hefyd yn awgrymu bod rhai ymatebwyr wedi ymateb yn reddfol yn hytrach nag ar ôl pwyso a mesur gofalus. Wrth gwrs, nid yw hynny'n golygu y dylid eu diystyru. Yr unig gasgliadau y gellir dod iddynt yn rhesymol yw nad yw'r ddadl o blaid EFT wedi argyhoeddi awduron ymatebion o'r fath hyd yn hyn, a bydd angen data empeiraidd pellach cyn y gellir eu darbwyllo y bydd EFT yn welliant sylweddol ar y sefyllfa bresennol.

Mae hefyd yn bwysig rhoi'r ymatebion i'r cwestiwn hwn mewn cyd-destun. Yn y cyswllt hwn, rhaid ystyried dau bwynt: yn gyntaf, roedd 89 y cant o'r holl ymatebwyr yn credu bod y cynnig Banc Asiant yn ddichonadwy (gweler Cwestiwn 1); yn ail, dim ond 24 y cant o ymatebwyr a gynigiodd unrhyw sylwadau mewn ymateb i'r gwahoddiad hwn ac nid oedd pob un ohonynt yn feirniadol.

Cafodd y materion canlynol eu crybwyll mewn ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Diffyg penodoldeb
Dywedodd nifer o ymatebwyr fod y cynigion yn brin o fanylion yn y meysydd pwysig. Er enghraifft, ni chafwyd dadansoddiad o gost/budd.

Treth tir toll stamp
Dywedodd llawer o ymatebwyr bod yn rhaid integreiddio'r gwasanaeth EFT yn llawn gyda system treth tir toll stamp Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac nid oeddynt yn hyderus am y rhagolygon o gyflawni hyn nac ychwaith yn fodlon y byddai'n gydnaws ag amcanion eraill EFT.

Diogelwch
Roedd nifer o ymatebwyr yn pryderu'n fawr am dueddiad y gwasanaeth i wahanol fathau o drosedd, yn enwedig hacio maleisus a gwyngalchu arian, ac nid oedd yn ymddangos bod darpariaeth ar gyfer gwiriadau priodol yn achos yr olaf. Dywedodd un ymatebwr fod sefydliadau ariannol a hyd yn oed y Pentagon, er gwaethaf buddsoddiadau enfawr mewn mesurau diogelwch, wedi cael eu heffeithio gan firysau, 'mwydod' cyfrifiadurol ac ati, a oedd wedi arwain at dwyll a cholled difrifol o ran defnydd. Nid oedd y ddogfen yn egluro sut byddai'r risg hon yn cael ei rheoli. Roedd llawer o ymatebwyr hefyd yn mynegi pryder am olrheiniadwyedd, tryloywder a natur archwiliadwy cyfrifon.

Gorfodaeth
Credai rhai ymatebwyr y byddai'n gyfiawn cyflwyno gorfodaeth yn gynnar, o leiaf yn achos cadwyni preswyl, oherwydd bod EFT yn cynnig cynifer o fanteision i drawsgludwr a chleientiaid. Awgrymwyd hefyd y gellid defnyddio EFT yn annibynnol ar elfennau eraill e-drawsgludo (er nad yw hyn yn ystyried dibyniaeth EFT ar y gadwyn matrics). Ar y llaw arall, roedd eraill yn teimlo y dylid gweithredu e-drawsgludo heb EFT, ac na ddylid cyflwyno EFT tan i'r holl elfennau eraill gael eu treialu'n drylwyr a'u dilysu.

Cyfathrebu
Dywedodd nifer o ymatebwyr y byddai defnyddwyr angen sianeli cyfathrebu llafar uniongyrchol gyda'r Gwasanaeth Canolog, yn ogystal â dull cyfathrebu electronig er enghraifft, i gysoni datganiadau cwblhau ar y diwrnod cwblhau neu i gyhoeddi cyfarwyddiadau dirymu, yn enwedig os oes problemau gyda'r cyfrifiaduron. Roeddynt yn amau a fyddai gan y Gwasanaeth Canolog y gallu i ddarparu hyn, yn enwedig ar yr adegau cwblhau prysuraf.

Hyblygrwydd
Dywedodd dau ymatebwr fod y system gyfredol yn hyblyg ar y diwrnod cwblhau ac yn gallu ymdopi â newidiadau munud olaf i ddatganiadau cwblhau er enghraifft, dosrannu tâl gwasanaeth, ffïoedd trosglwyddo telegraffig annisgwyl, tra gallai'r gwasanaeth arfaethedig achosi i gadwyn gyfan fethu â chwblhau yn sgil un diffyg bach oherwydd nad oedd ganddo'r gallu i gysoni cyfrifon ar y funud olaf.

Atebolrwydd
Gofynnodd rhai ymatebwyr pwy fyddai'n atebol pe na byddai arian yn cael ei ddyrannu i'r trafodiad cywir, neu pe na byddai'r Gwasanaeth Canolog yn derbyn cyfarwyddyd dirymu ar amser. Roeddynt yn ofni y byddai eu cleientiaid yn eu dal yn gyfrifol am gamgymeriadau er nad arnyn nhw oedd y bai.

Costau/incwm trawsgludwyr
Roedd pryder eang y byddai trawsgludwyr yn gorfod ysgwyddo costau sefydlu er enghraifft, am feddalwedd ac, o bosib, caledwedd newydd, a chostau trafodion a fyddai'n cael eu codi gan y Gofrestrfa Tir neu'r Banc Asiant, tra'n ildio'r llog ar arian cyfrifon cleientiaid ar yr un pryd. Gallai hyn achosi i gwmnïau bach fynd i'r wal, gan arwain at lai o ddewis i'r cyhoedd a phroses drawsgludo ddrutach, wrth i ffatrïoedd trawsgludo ddod i reoli marchnad anghystadleuol a throsglwyddo'r costau ychwanegol i'w cleientiaid. Hefyd, pe na bai'r system yn gweithio'n foddhaol, byddai'r gost wedi mynd yn ofer. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid caniatáu i ymarfer esblygu ar yr un cyflymder â thechnoleg, yn hytrach na bwrw ati ar gyflymder gorfodol gyda'r posibilrwydd o gael effeithiau andwyol ar farchnad sensitif.

Methiannau TG
Y sefyllfa waethaf, fel y nododd llawer o ymatebwyr, fyddai problem gyda chyfrifiadur y Gwasanaeth Canolog ar ddydd Gwener cyn penwythnos gŵyl y banc. Er mai dyma fyddai'r argyfwng gwaethaf heb os nac oni bai, nid dyma'r unig un a oedd yn gysylltiedig â methiant systemau TG. Pe bai systemau defnyddwyr yn methu, byddai angen dull arall o gyfathrebu â'r Gwasanaeth Canolog, er enghraifft, systemau ffôn neu ffacs wrth gefn. Ymhellach, byddai angen i systemau wrth gefn o'r fath sicrhau lefelau perfformiad derbyniol – pe bai trawsgludwr am gyhoeddi cyfarwyddyd dirymu ni fyddai'n dderbyniol ei fod yn gorfod aros i siarad â rhywun.

Drwgdybiaeth o'r Llywodraeth
Roedd rhai ymatebwyr yn amau mai tueddiadau adeiladu ymerodraeth neu reolaethol, yn hytrach na phryder am les y cyhoedd, oedd y cymhelliad wrth wraidd y rhaglen e-drawsgludo. Dywedodd eraill nad oedd canlyniadau e-brosiectau blaenorol y sector cyhoeddus yn ennyn hyder, ac roeddynt o'r farn y byddai'r system arfaethedig yn rhoi gormod o rym i'r Gofrestrfa Tir. Credai dau ymatebwr ei bod yn anghywir yn y bôn, hynny yw yn gam yn erbyn hawliau sifil, i'r Gofrestrfa Tir ymwneud â threfniadau contract masnachol rhwng partïon. Awgrymwyd hefyd fod y rhaglen o newid yn rhy uchelgeisiol ac y dylid cyflwyno agweddau eraill ar e-drawsgludo a'u treialu'n drylwyr cyn cyflwyno EFT.

Dywedodd nifer o ymatebwyr fod y baich ar y Gwasanaeth Canolog a'r Banc Asiant yn enfawr, ac roeddynt yn amau a fyddent yn gallu ysgwyddo'r baich hwnnw.

Cyflymdra'r newid
Nododd rhai ymatebwyr y byddai angen amser i gynnal amrywiaeth o weithgareddau cyn cyflwyno EFT, er enghraifft, caffael meddalwedd a chaledwedd (gan gynnwys cyfnod pontio), hyfforddiant staff, cefnogaeth TG. Byddai gweithredu EFT ar frys yn achosi anhrefn.

Gormod o ddim nid yw dda
Dywedodd rhai ymatebwyr fod y system bresennol yn gweithio'n weddol dda ac mai dim ond mân addasiadau oedd eu hangen i ddiwallu holl anghenion y farchnad, er enghraifft, cyflymu taliadau a hysbysiadau CHAPS. Roeddynt yn cwestiynu a oedd EFT yn angenrheidiol neu hyd yn oed yn ddymunol, o ystyried y cymhlethdod a'r gost ychwanegol roedd yn debygol o'i achosi. Roeddynt hefyd yn awgrymu nad oedd amcanion datganedig EFT – darparu cydamseroldeb, terfynoldeb a sicrwydd o ran taliadau mewn perthynas â'r holl drafodion mewn cadwyn breswyl; cyflymu'r broses ar y diwrnod symud; a gwneud cwblhau â chofrestru yn bosib – yn cael eu hystyried yn bwysig gan unrhyw un ar wahân i'r Llywodraeth a'r Gofrestrfa Tir.

Cyfrifo llog

Dywedodd dau ymatebwr y byddai'r llog a ganiateir ar arian sy'n cael ei gadw gan y Banc Asiant yn debygol o fod yn ddibwys ym mhob trafodiad preswyl a byddai'r gwaith o gyfrifo ac ad-dalu'r llog i'r buddiolwr yn fwy o drafferth na'i werth.

Gallu'r Banc Asiant
Dywedodd nifer o ymatebwyr fod banciau'n cael trafferth cyflawni'r hyn sy'n ofynnol ar hyn o bryd. O ystyried y llwyth enfawr o waith ychwanegol y byddai'n rhaid i'r Banc Asiant ei ysgwyddo, a'r ffaith y byddai gofyn iddo staffio a chynnal dwy system yn ymwneud â throsglwyddiadau eiddo, hynny yw EFT a CHAPS, roedd yn annhebygol y byddai lefelau gwasanaeth derbyniol yn cael eu bodloni.

Datganiadau adbrynu hwyr
Dywedodd un ymatebwr fod rhoddwyr benthyg yn aml yn darparu datganiadau adbrynu cywir yn hwyr a gofynnodd beth fyddai'n digwydd pe na bai ffigur adbrynu ar gael tan ddiwedd y prynhawn ar ddiwrnod cwblhau – sefyllfa eithaf cyffredin.

Tryloywder
Gofynnodd dau ymatebwr sut gellid datrys unrhyw anghysondebau yn amcangyfrifon ymarferyddion os mai dim ond mantolenni net a oedd gan ymarferyddion – cafodd hyn ei grybwyll hefyd gan un o'r ychydig roddwyr benthyg a ymatebodd, ac ategodd nad oedd yn eglur pwy fyddai'n pennu'r sefyllfa net a phryd. Gallai hyn effeithio ar olrheiniadwyedd arian.

Amseru
Roedd nifer o ymatebwyr yn cwestiynu amseriad EFT, o ystyried: bod taliadau cyflymach yn debygol o gael eu cyflwyno gan y banciau mewn dwy flynedd, yn dilyn adroddiad OFT beirniadol a phwysau o du'r UE bod rhoddwyr benthyg a banciau'n cwmpasu pob rhan o'r DU, nid Cymru a Lloegr yn unig. Mae posibilrwydd y gallai fod yn rhaid i roddwyr benthyg weithredu system wahanol ar gyfer pob awdurdodaeth yn y DU, a byddai hyn yn ddrud iawn ac yn annymunol.

Problemau gyda phobl
Yn ôl nifer o ymatebwyr, er ei bod yn ymddangos bod y cynnig yn tybio bod yr holl anawsterau gyda'r broses gyfredol yn rhai systemig, mewn gwirionedd mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â ffaeledigrwydd pobl a natur anrhagweladwy ymddygiad dynol. Roedd enghreifftiau'n cynnwys cleientiaid yn methu apwyntiadau, taliadau hwyr gan gleientiaid, treigl amser o ran sieciau, cael caniatâd gan gleientiaid, cael yswiriant tân a rhoi prawf o'r yswiriant i roddwyr benthyg, rhoddwyr benthyg yn oedi wrth ryddhau arian neu ddarparu datganiadau adbrynu, oedi gan drawsgludwyr, didyniadau annisgwyl oddi ar fenthyciadau, gwerthwyr ddim yn gadael yr eiddo ar amser, sicrhau bod gwerthwyr wedi cyflwyno'r allweddi – ac nid yw'n rhestr gynhwysfawr o bell ffordd.

Rhan 3

Casgliadau a'r camau nesaf

Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser a gwneud yr ymdrech i ymateb i'r ddogfen drafod EFT. Roedd llawer o'r ymatebion yn fanwl iawn ac mae'n amlwg eu bod yn ffrwyth cryn amser a meddwl. Nid yw'n tynnu dim oddi arnynt i ddweud bod rhai o'r materion a godwyd wedi eu trafod yn ddigonol mewn gwaith rydym wedi ei wneud ers ysgrifennu'r ddogfen drafod, a bydd eraill yn cael eu hystyried wrth i ni ddatblygu a gwella ein syniadau. Nid yw hyn ychwaith yn awgrymu ein bod wedi rhagweld yr holl faterion neu wedi datrys yr holl broblemau. I'r gwrthwyneb, roedd yr ymatebion yn hynod werthfawr gan eu bod wedi tynnu ein sylw at bwyntiau sydd angen eu hegluro ymhellach a meysydd lle mae angen i ni wneud rhagor o ymchwil. Yn arbennig, mae ymatebwyr wedi datgelu gwrthdaro posib rhwng gofynion y gwahanol rannau o'r farchnad y mae angen i ni ei ddatrys, er enghraifft:

gallai gwahanol reolau'r cyfrifon sy'n berthnasol i gyfreithwyr a thrawsgludwyr wrthdaro â phrotocolau bancio

angen cysoni prosesau adbrynu rhoddwyr benthyg gyda rhagariannu[4]

rhaid cydbwyso'r angen am system drefnus a reolir gydag angen y farchnad am hyblygrwydd a'r gallu i ymateb i newidiadau munud olaf.

Er bod budd-ddeiliaid yn cefnogi egwyddor EFT yn gyffredinol, mae'n amlwg bod pryderon gwirioneddol am yr ymarfer arfaethedig. Mae angen mynd i'r afael â rhai elfennau yn fanylach nag yr ydym wedi ei wneud hyd yn hyn. Rydym eisoes wedi mynd i'r afael ag eraill, ond mae'n bosib nad ydym wedi rhoi digon o gyhoeddusrwydd i'r camau rydym wedi eu cymryd.

Er mwyn caniatáu amser i ddatrys y materion sy'n weddill, rydym wedi penderfynu eithrio EFT o'r prosiect peilot e-drawsgludo sydd i ddechrau yn 2007. Yn hytrach, bydd y gwasanaeth yn cael ei gyflwyno pan fo'r pwyntiau sydd wedi eu crybwyll gan ymatebwyr a'u hamlinellu yn y ddogfen hon wedi eu hateb yn foddhaol, a bod budd-ddeiliaid yn gallu cymeradwyo ein cynigion yn ddiamod.

Nid yw hyn yn tynnu oddi ar y camau rydym eisoes wedi eu cymryd, neu'n bwriadu eu cymryd, ac ni fydd pob budd-ddeiliad yn ymwybodol ohonynt. Yn eu plith:

- rydym wedi cael barn yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, APACS, Banc Lloegr a'r Swyddfa Masnachu Teg ar ein cynnig

[4] Gallai hyn fod yn anoddach na'r disgwyl. O safbwynt rhoddwyr benthyg, mae adbryniadau yn waith heb werth ac felly maent yn annhebygol o gael blaenoriaeth uchel.

- rydym wedi gofyn barn y bargyfreithiwr arweiniol ar a fyddai'r cynnig i gael un Banc Asiant yn gallu cael ei herio dan gyfraith cystadlu
- rydym wedi cynnal trafodaethau anffurfiol gyda chynrychiolwyr nifer o'r prif fanciau
- rydym wedi cyflogi ymgynghorwyr annibynnol i'n cynghori ar agweddau bancio technegol EFT
- rydym wedi dechrau prosiect dan reolau'r UE i gaffael gwasanaethau Banc Asiant
- byddwn yn cynnal trafodaethau pellach gyda budd-ddeiliaid, gan gynnwys banciau, Cymdeithas y Cyfreithwyr a Chyngor y Trawsgludwyr Trwyddedig, gyda'r nod o ddileu'r gwrthdaro a nodir uchod, a nodi a hyrwyddo arfer gorau
- byddwn yn parhau i fonitro newidiadau amgylcheddol allanol a allai effeithio ar EFT, a phwyso a mesur ac ystyried eu heffeithiau, er enghraifft, datblygiad taliadau cyflymach, newidiadau mewn ymarfer trawsgludo.